Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Canllawiau Diwygiedig ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau

Hydref 2015

ISBN digidol 978 1 4734 4238 2
© Hawlfraint y Goron 2015
WG25897

**Cynnwys**


| | Rhif y dudalen. |
|---|---|
| Cyflwyniad | iii |
| Cwmpas y Strategaeth Gomisiynu | iv |
| **1.0 Y Cyd-destun ar gyfer Strategaeth Gomisiynu** | 1 |
| 1.1 Cefndir | 1 |
| 1.2 Diffinio Comisiynu | 1 |
| 1.3 Diffinio Caffael | 2 |
| 1.4 Egwyddorion Trosfwaol Comisiynu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau | 2 |
| 1.4.1 Gofal Iechyd Darbodus – Gwasanaethau Darbodus | 3 |
| 1.4.2 Systemau Gofal Integredig Sy'n Canolbwyntio ar Adferiad. | 4 |
| 1.4.3 Dull Lleihau Niwed | 4 |
| 1.4.4 Cydweithio mewn Partneriaeth - Cydgynhyrchu. | 4 |
| 1.4.5 (i) Egwyddorion cydgynhyrchu | 5 |
| 1.4.6 Sicrhau Comisiynu a Chontractio sy'n Seiliedig ar Ganlyniadau | 6 |
| 1.4.7 Datgomisiynu | 7 |
| 1.5 Themâu Trawsbynciol | 7 |
| 1.5.1 Gweithio gyda'r Trydydd Sector | 7 |
| 1.5.2 Sicrhau bod Gweithgareddau Caffael yn cael eu cyflawni yn unol ag Arfer Gorau. | 8 |
| 1.5.3 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 9 |
| 1.5.4 Gofynion o ran y Gymraeg | 9 |
| 1.5.5 Plant a Phobl Ifanc | 9 |
| 1.5.6 Pobl hŷn | 10 |
| 1.5.7 Trechu Tlodi. | 10 |
| 1.6 Trefniadau Llywodraethu Byrddau Cynllunio Ardal (BCAau). | 11 |
| | |
| **2.0 Fframwaith ar gyfer Comisiynu** | 13 |
| 2.0.1 Pennu cwmpas y gwaith sy'n ofynnol | 15 |
| 2.1 Y Cam Dadansoddi – Casglu Gwybodaeth | 16 |
| 2.1.1 Diben a Nodau Strategol y Bwrdd Cynllunio Ardal (BCA) | 16 |
| 2.1.2 Dadansoddi Anghenion | 18 |
| 2.1.3 Dadansoddi'r Farchnad | 20 |
| 2.1.4 Dadansoddi Adnoddau | 23 |
| | |
| **3.0 Y Cam Cynllunio – Datblygu'r Strategaeth Gomisiynu** | 24 |
| 3.1 Cyflwyniad | 24 |

| | |
|---|---|
| 3.2 Dadansoddi Bylchau | 24 |
| 3.3 Blaenoriaethu a Bwriadau Comisiynu Strategol | 25 |
| 3.4 Cynhyrchu'r Strategaeth Gomisiynu | 25 |
| 3.4.1 Cynnwys y Strategaeth Gomisiynu | 26 |
| | |
| **4.0 Y Cam Gweithredu – Sicrhau Gwasanaethau** | 27 |
| 4.1 Cyflwyniad | 27 |
| 4.2 Rheoli Cydbwysedd Gwasanaethau | 27 |
| 4.3 Trefniadau ar gyfer Nodi Gwasanaethau Penodol | 29 |
| 4.4 Trefniadau ar gyfer dethol darparwyr gwasanaethau | 30 |
| 4.5 Trefniadau ar gyfer Contractio | 30 |
| 4.6 Sicrhau Ansawdd | 31 |
| 4.6.1 Cofrestru Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) | 31 |
| 4.7 Adnabod Darparwyr Newydd Posibl | 32 |
| 4.8 Ymchwilio i Wasanaethau Camddefnyddio Sylweddau | 32 |
| | |
| **5.0 Y Cam Adolygu – Monitro, Gwerthuso ac Adolygu'r Strategaeth** | 33 |
| 5.1 Cyflwyniad | 33 |
| 5.2 Monitro | 33 |
| 5.3 Gwerthuso ac Adolygu | 34 |
| | |
| **Atodiadau** | |
| 1. Templedi / Rhestrau Gwirio<br>1a. Templed ar gyfer Pennu Cwmpas Cynllun Comisiynu<br>1b. Rhestr wirio ar gyfer gweithgareddau dadansoddi 1c. Templed ar gyfer Cynllun Comisiynu | 36 |
| 2. Yr Agenda Genedlaethol<br>2a – Polisïau a Chanllawiau Cenedlaethol<br>2b – Deddfwriaeth Berthnasol<br>2c – Arfer Da | 55 |
| 3. Rhestr Termau | 69 |
| 4. Dadansoddi Anghenion | 75 |
| 5. Ysgrifennu'r Strategaeth Gomisiynu. | 77 |
| | |
| **Cyfeiriadau** | 79 |

**CYFLWYNIAD**

Nod y ddogfen hon yw rhoi arweiniad i Fyrddau Cynllunio Ardal (BCAau) Camddefnyddio Sylweddau ar ddatblygu strategaeth gomisiynu ond mae hefyd o ddiddordeb i randdeiliaid, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau. Mae'n disodli canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2005 i ystyried arbenigedd sy'n dod i'r amlwg ym maes comisiynu; rôl gryfach y BCAau, y gofyniad i sefydlu strategaeth gomisiynu sy'n seiliedig ar ganlyniadau a blaenoriaethau cenedlaethol a lleol newydd – yn anad dim y dirwedd newidiol o ran camddefnyddio sylweddau gyda'r cynnydd mewn sylweddau seicoweithredol newydd yn amlwg.

Yn dilyn adolygiad yn 2011, cafodd rôl ac aelodaeth y BCA eu cryfhau i gynorthwyo awdurdodau cyfrifol i gyflawni eu cyfrifoldeb statudol am lunio a gweithredu strategaeth i fynd i'r afael â phroblem camddefnyddio sylweddau trwy'r ôl troed rhanbarthol. Felly mae gan y BCA rôl i gomisiynu ystod eang o wasanaethau i fynd i'r afael â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn ei ardal. Mae hyn yn cynnwys defnyddio dull strategol cyffredin o ddiwallu anghenion y poblogaethau y maent yn eu gwasanaethu. Heb ddull trylwyr, systematig a strategol, bydd effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau i'w cymuned yn cael eu tanseilio, ac mae mwy o risg y bydd gwasanaethau'n rhai o ansawdd gwael, yn gorgyffwrdd â'i gilydd, yn peidio â chael eu defnyddio ddigon neu'n methu â chyflawni'r canlyniadau angenrheidiol.

Bydd y broses gomisiynu'n rhoi'r cyfle i BCAau wneud gwaith pellach i ddatblygu gwasanaethau sy'n seiliedig ar amcan polisi datganedig Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal iechyd darbodus. Mae gofal iechyd darbodus yn seiliedig ar set o egwyddorion sy'n ailfodelu'r berthynas rhwng defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau ar sail cydgynhyrchu, gan sicrhau bod y ddau'n bartneriaid cydradd mewn unrhyw driniaeth a ddarperir. Mae hefyd yn golygu bod yn rhaid inni ddefnyddio adnoddau'n effeithiol trwy ddarparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael eu darparu gan ystod eang o weithwyr proffesiynol, gan alluogi'r gweithlu i gael ei drefnu yn ôl yr egwyddor o 'ddim ond gwneud yr hyn y gallwch chi, a neb arall, ei wneud'.

Bydd disgwyl hefyd i BCAau gynorthwyo i gyrraedd nodau'r cynllun newydd ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol. Nod y cynllun hwn yw datblygu model iechyd mwy "cymdeithasol" sy'n hybu lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol, yn hytrach na dim ond absenoldeb afiechyd ac sy'n dwyn ynghyd yr holl sefydliadau, gwasanaethau a phobl perthnasol i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael ag achos sylfaenol iechyd gwael. Trwy'r broses gomisiynu rydym am sicrhau bod gwasanaethau camddefnyddio sylweddau'n cael eu cysylltu'n briodol â gwasanaethau eraill ym maes gofal sylfaenol, gan sicrhau bod llwybrau gofal integredig yn bodoli a'r rheiny'n canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr gwasanaethau. Er mwyn galluogi'r BCA i wneud hyn yn effeithiol bydd angen iddynt sicrhau y ceir mewnbwn priodol gan wasanaethau gofal sylfaenol ar lefel y BCA a thystiolaeth bod camddefnyddio sylweddau wedi'i integreiddio o fewn system ehangach o wasanaethau iechyd cymunedol lleol.

Mae'r adran gyntaf o'r ddogfen hon yn nodi egwyddorion trosfwaol comisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a'r themâu trawsbynciol y dylid eu hystyried wrth wneud hynny. Mae'r ail adran yn nodi'r fframwaith pedwar cam ar gyfer comisiynu sy'n cynnwys y gweithgareddau canlynol: dadansoddi, cynllunio, gweithredu ac adolygu. Mae pob un o'r adrannau sy'n dilyn yn ystyried un o'r camau yn y fframwaith a'r gweithgareddau y bydd angen i BCAau eu cyflawni i reoli'r cam

hwnnw'n effeithiol. Yn olaf, mae rhestr wirio a deunyddiau cyfeirio i gefnogi camau allweddol yn y cylch comisiynu wedi'u cynnwys yn yr Atodiadau.

***Cwmpas y Strategaeth Gomisiynu***

Mae'n rhaid i gwmpas y strategaethau hyn gynnwys camau gweithredu a gymerir i fynd i'r afael â'r sylweddau mwy 'traddodiadol' yn ogystal â'r sylweddau hynny sydd wedi dod i'r amlwg dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys sylweddau seicoweithredol newydd a steroidau a chyffuriau sy'n gwella delwedd.

Mae angen i strategaethau comisiynu hefyd ystyried ehangder y strategaeth genedlaethol wrth ymateb i anghenion eu poblogaeth. Mae'n rhaid i BCAau a'u partneriaid ystyried gwaith i atal camddefnyddio sylweddau trwy dargedu ymdrechion at yr unigolion a'r cymunedau hynny sydd fwyaf mewn perygl ond gan sicrhau hefyd bod anghenion y boblogaeth ehangach yn cael sylw. Lle mae camddefnyddio sylweddau yn digwydd, mae'n rhaid i'r rhai yr effeithir arnynt allu cael mynediad at wasanaethau triniaeth o ansawdd da sy'n amserol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn effeithiol. Mae angen i'r gwasanaethau triniaeth hyn sicrhau bod egwyddor 'adferiad' yn cael ei sefydlu fel rhan annatod o'u trefniadau cyflenwi a bod y BCA, wrth gomisiynu gwasanaethau, yn ystyried anghenion grwpiau penodol, megis troseddwyr a chamddefnyddwyr sylweddau ifanc gan fod angen dulliau gwahanol yn aml.

Mae'n bwysig bod cymorth ar gael hefyd i deuluoedd camddefnyddwyr sylweddau gan y deallir bod perthnasau a gofalwyr yn gallu cyflawni rôl hanfodol o ran helpu camddefnyddwyr sylweddau i lwyddo pan ydynt yn cael triniaeth ond mae angen trefnu bod gwasanaethau ar gael hefyd i leihau'r risg o niwed i blant ac oedolion o ganlyniad i ymddygiad camddefnyddio sylweddau aelod o'r teulu. Mae gan y BCA rôl hefyd o ran ystyried sut y gall gynorthwyo i leihau'r niweidiau trwy fynd i'r afael ag argaeledd cyffuriau anghyfreithlon ac argaeledd amhriodol alcohol a sylweddau eraill.

Bydd y canllawiau hyn o gymorth i BCAau o ran cyflawni'r blaenoriaethau allweddol hyn a hefyd o ran dangos eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau Craidd Cenedlaethol ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau.

## 1. Y Cyd-destun ar gyfer Strategaeth Gomisiynu.

### 1.1 Cefndir.

Gorwedd y cyfrifoldeb am lunio a gweithredu strategaeth i frwydro yn erbyn camddefnyddio sylweddau yng Nghymru gyda'r 'awdurdodau cyfrifol' sy'n aelodau o'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (PDCau). Cydnabyddir bod ymrwymiad PDCau i fynd i'r afael â'r agenda camddefnyddio sylweddau yng Nghymru wedi bod yn allweddol i gyflawni'r cynnydd a wnaed yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf.

Fodd bynnag, dadleuwyd yn gryf yn strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer camddefnyddio sylweddau, 'Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed' (2008-18), y dylai PDCau ac asiantaethau eraill sy'n rhan o fynd i'r afael â'r niweidiau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau a lleihau'r niweidiau hynny wneud mwy i gynllunio gwasanaethau triniaeth ac i gyfuno adnoddau ar lefel ranbarthol lle y bo'n briodol. I gefnogi'r broses hon o gyflawni ar lefel ranbarthol (byrddau iechyd lleol), sefydlwyd strwythurau BCAau yn 2010.

Yn dilyn adolygiad yn 2011, cafodd rôl ac aelodaeth y BCA eu cryfhau er mwyn cynorthwyo awdurdodau cyfrifol i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau trwy'r ôl troed rhanbarthol. Bellach mae'n ofynnol i BCAau ddatblygu strategaeth gomisiynu sy'n seiliedig ar ganlyniadau ar draws ardal y BCA a chynhyrchu cynllun cyflawni wedi'i gostio'n llawn i gefnogi'r strategaeth hon. Mae aelodaeth y BCAau yn cynnwys cynrychiolwyr o'r 'awdurdodau cyfrifol', sef aelodau'r PDCau, i'w gwneud yn bosibl cyflawni'r cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau ar lefel ranbarthol. Er rhwyddineb, o hyn ymlaen bydd y berthynas hon yn cael ei chynnwys o fewn y canllawiau hyn yn y diffiniad cwmpasol o 'BCA'.

Mae'r newid i'r ôl troed rhanbarthol yn unol ag agenda cydlafurio ehangach Llywodraeth Cymru, ac mae cyfuno adnoddau ar gyfer datblygu a rheoli gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar draws ardal BCA yn darparu cyfleoedd i gryfhau prosesau cynllunio, comisiynu, cyflenwi a rheoli perfformiad ar gyfer gwasanaethau gan gyflawni arbedion effeithlonrwydd hefyd.

I gael mwy o fanylion am rôl, cylch gwaith a threfniadau llywodraethu'r BCAau cyfeiriwch at y 'Canllawiau ar gyfer Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau' a gyhoeddwyd ym mis Awst 2012 ac sydd ar gael yn http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/substancemisuse/?lang=cy

### 1.2 Diffinio Comisiynu.

Er mwyn ei gwneud yn bosibl bod â dealltwriaeth gyffredin am gomisiynu, cynigir y diffiniad canlynol gan ei fod yn cyfleu'r elfennau allweddol o'r dasg gomisiynu i BCAau:

*'Commissioning is the process of specifying, securing and monitoring services to meet people's needs at a strategic level. This applies to all services, whether they are provided by the local authority, NHS, other public agencies or by the private or voluntary sectors.'*
(Y Comisiwn Archwilio, 'Making Ends Meet', Hydref 2003).

Fodd bynnag, deallir bod sawl diffiniad gwahanol o gomisiynu a chaffael, sy'n pwysleisio'r gwahanol agweddau ar y dasg, gan ddibynnu ar y cyd-destun.

Pa bynnag ddiffiniad a ddefnyddir, mae'n pwysleisio pwysigrwydd diwallu anghenion ar lefel strategol, deall anghenion yr holl bobl o fewn poblogaeth darged ac yna comisiynu gwasanaethau a fydd yn diwallu anghenion y defnyddwyr gwasanaethau, ni waeth pwy sy'n eu darparu.

### 1.3 Diffinio Caffael.

Er bod y ddogfen hon yn ymwneud â chomisiynu, mae'n ddefnyddiol deall a chadarnhau'r gwahaniaeth rhwng y term 'comisiynu' a gweithgareddau â chysylltiad agos, megis 'caffael'. Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru (DPCC) yn diffinio caffael fel a ganlyn:

*'Proses lle mae sefydliadau yn diwallu eu hanghenion o ran nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail oes gyfan yn nhermau cynhyrchu manteision, nid yn unig i'r sefydliad caffael, ond hefyd i'r gymdeithas a'r economi, gan greu'r difrod lleiaf i'r amgylchedd".*
(Y Tasglu Caffael Cynaliadwy (2006)).

Fel y mae'r diffiniad yn ei awgrymu, gall caffael gynnwys ystod o weithgareddau a gyflawnir gyda ac ar gyfer pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau gan gynnwys, er enghraifft, cytuno ar gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth gyda darparwr i ddarparu gwasanaeth penodol a monitro llwyddiant y gwasanaeth hwnnw. Gall gweithgareddau o'r fath gael eu cyflawni gan reolwyr gofal neu reolwyr contractau ar gyfer y BCA. Fodd bynnag, mae angen iddynt gael eu cyflawni yng nghyd-destun fframwaith comisiynu cyffredinol, er mwyn iddynt gyfrannu at ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol sy'n diwallu anghenion y boblogaeth y mae'r BCA yn gyfrifol amdani.

Mae'r rhestr termau yn atodiad tri yn darparu diffiniadau pellach mewn perthynas â thasgau cysylltiedig megis prynu, contractio a threfniadau contract perthynol.

### 1.4 Egwyddorion Trosfwaol Comisiynu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau

Dylai comisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau effeithiol hybu agenda ataliol hefyd ac mae nid yn unig yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau sy'n hysbys ond mae hefyd yn cwmpasu defnyddwyr problemus nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau ar hyn o bryd. Mae nifer o themâu a ddylai fod yn berthnasol i baratoi'r strategaeth gomisiynu ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau gan gynnwys:

- Sicrhau bod egwyddorion gofal iechyd darbodus yn cael eu sefydlu ym mhob rhan o'r broses gomisiynu.
- Sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynir yn sefydlu egwyddorion adferiad a lleihau niwed;
- Sicrhau bod anghenion a barn defnyddwyr gwasanaethau wedi dylanwadu ar wasanaethau;
- Sicrhau bod gwasanaethau'n cyflawni canlyniadau mesuradwy.

Caiff yr egwyddorion hyn eu nodi mewn mwy o fanylder yn 1.4.1 isod.

### 1.4.1 Gofal Iechyd Darbodus – Gwasanaethau Darbodus.

Mae angen i BCAau yng Nghymru sefydlu'r egwyddorion sy'n seiliedig ar werthoedd y mae gofal iechyd darbodus yn eu hannog ar draws y system gyfan. Mae gofal iechyd darbodus yn y cyd-destun hwn yn mynnu bod y gwasanaeth cywir yn ymyrryd ar yr adeg gywir ac yn y ffordd gywir. Lle mae angen i fwy nag un gwasanaeth ymyrryd dylid gwneud hyn yn gydweithredol gan wneud y defnydd gorau o adnoddau, gan sicrhau ymateb cymesur ac osgoi dyblygu ymdrech a thriniaeth.

Mae'r newid diwylliannol hwn yn berthnasol wrth gomisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau gan fod angen inni sicrhau bod gwasanaethau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn grymuso. Er mwyn cynorthwyo'r rhai sy'n comisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau mae'r egwyddorion ehangach canlynol wedi cael eu haddasu o egwyddorion datganedig gofal iechyd darbodus:

- Sicrhau iechyd a llesiant, gydag aelodau'r cyhoedd, cleifion a gweithwyr proffesiynol yn bartneriaid cyfartal drwy gyd-gynhyrchu (gweler 1.4.4 am ragor o wybodaeth)
- Gofal i'r rheini â'r angen iechyd mwyaf yn gyntaf, gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r holl sgiliau ac adnoddau
- Gwneud dim ond beth sydd ei angen a gwneud dim niwed, dim mwy, dim llai
- Lleihau amrywiaeth amhriodol gan ddefnyddio arferion yn seiliedig ar dystiolaeth yn gyson ac yn dryloyw.

Fodd bynnag, mae'r cysyniad mewn gofal iechyd darbodus o ran 'dim ond gwneud yr hyn y gallwch chi, a neb arall, ei wneud' yn dal i fod yn un nerthol, yn enwedig er mwyn creu gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol darbodus ar gyfer y dyfodol. Bydd felly'n bwysig cynnal y cysyniad na ddylai'r un gweithiwr proffesiynol fod yn darparu gwasanaeth fel mater o drefn, nad yw'n galw am ei lefel o allu neu arbenigedd clinigol – dim ond gwneud yr hyn y gallwch chi, a neb arall, ei wneud – wrth i Gymru barhau â'i siwrne tuag at ofal iechyd darbodus.

*Gweler atodiad 2 hefyd am fwy o wybodaeth am yr adnodd 'rhoi gofal iechyd darbodus ar waith', sy'n cynnwys pennod ar gamddefnyddio sylweddau http://www.prudenthealthcare.org.uk/mynd-ir-afael-a-chamddefnyddio-sylweddau-mewn-ffordd-effeithiol-a-chynaliadwy/.*

### 1.4.2 Systemau Gofal Integredig Sy'n Canolbwyntio ar Adferiad.

Ym mis Hydref 2013 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau a oedd yn dwyn y teitl 'Systemau Gofal Integredig Sy'n Canolbwyntio ar Adferiad'. Mae'r ddogfen hon yn rhoi cymorth i gomisiynwyr, cynllunwyr, darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth y Byrddau Cynllunio Ardal o ran sefydlu systemau integredig o ddarpariaeth gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar adferiad, gan ei gwneud yn bosibl sefydlu egwyddorion adferiad fel rhan o'r diwylliant o ran darparu triniaeth ledled Cymru.

Mae'r canllawiau hyn ar gael dan y tab cyhoeddiadau yn http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/substancemisuse/?skip=1&lang=cy ac yn darparu mwy o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael i gyflawni Systemau Gofal Integredig Sy'n Canolbwyntio ar Adferiad a nifer o offer y gellir eu defnyddio i fonitro a mesur effeithiolrwydd ac ansawdd Systemau Gofal Integredig Sy'n Canolbwyntio ar Adferiad.

Mae angen i fframwaith comisiynu pob BCA ddangos tystiolaeth briodol o'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn y fframwaith hwn i sicrhau bod dulliau sy'n canolbwyntio ar adferiad yn cael eu hintegreiddio mewn gwasanaethau craidd ar gyfer triniaeth camddefnyddio sylweddau.

### 1.4.3 Dull Lleihau Niwed.

Mae'r dull lleihau niwed wrth fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn seiliedig ar ymrwymiad cryf i egwyddorion iechyd y cyhoedd. Mae'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn gost-effeithiol pan gaiff ei weithredu mewn ffordd sydd wedi'i dargedu at leihau'r niweidiau a'r risgiau i unigolyn a'r gymuned y mae'n byw ynddi. Er nad yw lleihau niwed yn canolbwyntio'n bennaf ar ymwrthod mae'n ymgorffori adferiad fel rhan o ystod o nodau a chanlyniadau dros amser ac felly dylai unrhyw strategaeth gomisiynu sicrhau bod ystod o opsiynau ymyrryd ar gael. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gompendiwm Iechyd a Lles yn 2013 sy'n darparu canllawiau ac argymhellion ar gyfer gweithredu o dan saith elfen benodol o ofal iechyd, gan gynnwys iechyd y geg, feirysau a gludir yn y gwaed: atal, profi a thrin, a thargedu grwpiau hynod agored i niwed. Mae hwn ar gael o dan y tab cyhoeddiadau yn http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/substancemisuse/?lang=cy .

### 1.4.4 Cydweithio mewn Partneriaeth - Cydgynhyrchu.

Defnyddir termau amrywiol i ddisgrifio dulliau cydweithredol o ddarparu gwasanaethau er enghraifft canolbwyntio ar ganlyniadau, person-ganolog, cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a chydgynhyrchu. Yr hyn sy'n gyffredin rhyngddynt i gyd yw athroniaeth sylfaenol sy'n gwerthfawrogi unigolion, yn adeiladu ar eu systemau cymorth hwy eu hunain ac yn ystyried eu lle yn y gymuned ehangach. Mae'r dull hwn yn galw am newid o ddulliau a arweinir gan wasanaethau neu ddulliau o'r brig i lawr i un lle mae dinasyddion yn cael eu grymuso o ddifrif, ac un sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a'u cymunedau yn y broses o gomisiynu, dylunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau.

Tyfu mae'r dystiolaeth o allu cydgynhyrchu i gynyddu effeithlonedd, cynaliadwyedd a gwerth am arian.

Mae cydgynhyrchu yn cynnig ymateb grymus i'r cyfyngiadau cyllido ar hyn o bryd gan ei fod yn defnyddio profiad, gwybodaeth a galluoedd yr holl gyfranogwyr, gan gynnwys y defnyddiwr gwasanaethau – adnodd nad oedd yn cael ei ddefnyddio'n ddigonol yn flaenorol. Gall gwasanaethau ddod yn fwy effeithiol a pherthnasol gan fod defnyddwyr gwasanaethau a'u cymunedau'n helpu i ddylunio a chyflawni'r canlyniadau. Mae ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau'n annog derbyniad ac, yn y pendraw, perchnogaeth, gan arwain at brosiectau gwirioneddol gynaliadwy. Yn amlwg, mae canlyniadau mwy effeithiol a mwy cynaliadwy yn cynnig gwerth gwell am arian, nid dim ond mewn perthynas â gwasanaeth neu brosiect penodol ond hefyd trwy rymuso a chynnwys dinasyddion.

Hefyd, dylai cydgynhyrchu ac ymgysylltu â dinasyddion fod yn ganolog i'r ffocws datblygol ar atal/gweithredu'n gynnar fel yr unig ymateb dichonadwy i alw cynyddol a chyllidebau gostyngol.

### *1.4.5. (i) Egwyddorion cydgynhyrchu*

Mae cydgynhyrchu'n gweithio ar yr egwyddor ein bod ni i gyd yn bartneriaid cydradd a bod gan bob un ohonom rywbeth o werth i'w gyfrannu. Egwyddorion craidd cydgynhyrchu yw:

- *Gwerthfawrogi pobl fel asedau*: mae pobl yn cael eu cydnabod fel partneriaid cydradd yn y broses o ddylunio a darparu gwasanaethau, nid fel derbynyddion goddefol neu broblemus i wasanaethau cyhoeddus.

- *Adeiladu ar alluoedd presennol pobl*: mae'r model diffyg traddodiadol yn dechrau ag anghenion pobl; mae gwasanaethau a gydgynhyrchir yn dechrau â'u galluoedd ac yn chwilio am gyfleoedd i helpu'r rhain i ffynnu.

- *Cydfuddiannu a chilyddiaeth*: mae cydgynhyrchu'n seiliedig ar bartneriaeth gydradd a chilyddol rhwng gweithwyr proffesiynol, defnyddwyr gwasanaethau a'u cymunedau.

- *Rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid*: mae cydgynhyrchu'n defnyddio rhwydweithiau lleol a phersonol i gynyddu i'r eithaf y broses o drosglwyddo gwybodaeth yn effeithiol a chefnogi newid.

- *Hwyluso yn hytrach na darparu*: mae gweithwyr proffesiynol yn cael eu hannog i ddod yn hwyluswyr newid yn hytrach nag yn ddarparwyr gwasanaethau.

Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Fframwaith Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau diwygiedig sy'n darparu gwybodaeth ychwanegol am egwyddorion cydgynhyrchu ac arfer gorau mewn perthynas ag ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau. Mae hwn ar gael dan y tab cyhoeddiadau yn http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/substancemisuse/?skip=1&lang=cy.

### 1.4.6 Sicrhau Comisiynu a Chontractio sy'n Seiliedig ar Ganlyniadau.

Wrth ddatblygu strategaeth comisiynu sy'n seiliedig ar ganlyniadau, mae'n bwysig bod gan ddefnyddwyr, darparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau i gyd ddealltwriaeth gyffredin am yr hyn y ceisir ei gyflawni. Bydd hyn o gymorth i gael asesiad gwell o anghenion ac felly ble i dargedu adnoddau terfynol. Dylai'r canlyniadau hyn gael eu diffinio ar ddechrau'r broses a bydd hyn o gymorth i randdeiliaid gytuno ar weledigaeth gyffredin ar gyfer y BCA. O'i roi'n syml, ystyr canlyniad yw cyflwr lles yr ydym ni i gyd yn ei ddymuno ar gyfer y boblogaeth.

Nid yw'r canlyniadau hyn yn cael eu rhagnodi gan Lywodraeth Cymru am y rhesymau a nodir uchod ac mae'n bwysig bod gan y BCA berchnogaeth ar y canlyniadau hyn a'u bod yn cael eu goleuo gan eu hasesiadau o anghenion lleol.

Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i ganlyniadau cytunedig fod yn gyson â strategaeth camddefnyddio sylweddau Llywodraeth Cymru 2008-18 a'r cynlluniau cyflawni ategol. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio mecanweithiau presennol i ddwyn y BCAau i gyfrif am y modd y maent hwy eu hunain yn cyflawni, ac mae hyn yn cynnwys cynnydd yn erbyn camau gweithredu'r BCA yn y cynllun cyflawni cenedlaethol presennol, cynnydd o ran cyrraedd y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer camddefnyddio sylweddau a chydymffurfio â'r safonau craidd, sy'n nodi'r safonau gofynnol a ddisgwylir ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

Mae mynd ati'n effeithiol i fonitro canlyniadau ochr yn ochr â'r gost yn eithriadol o bwysig i bennu gwerth am arian a dylai'r strategaeth gomisiynu ddangos yn eglur bod yr asesiad hwn wedi cael ei gwblhau.

Bydd canolbwyntio ar ganlyniadau'n golygu defnyddio dull gwahanol o fonitro perfformiad darparwyr. Mae gwneud hyn yn golygu bod a wnelo tasg y darparwr yn fwy â chyflawni'r canlyniadau hynny na dim ond cyfrif lefelau gweithgarwch. O'i wneud yn dda, mae 'comisiynu sy'n seiliedig ar ganlyniadau' yn rhoi'r cyfle i ddarparwyr newid maint a natur y gwasanaeth yn ôl angen, heb orfod newid yr asesiad yn gyson os nad yw'r canlyniadau cytunedig yn cael eu cyflawni.

Mae'n rhaid i'r cynllun comisiynu a ddatblygir nodi'r canlyniadau y ceisir eu cyflawni a pha wasanaethau / prosiectau y tybir eu bod yn y sefyllfa orau i ddiwallu'r anghenion hyn. Mae angen i gomisiynwyr ddatblygu ffordd ffurfiol o gyfuno data i fesur pa un a yw'r canlyniadau hyn yn cael eu cyflawni ai peidio. Wedyn mae angen i'r canlyniadau bwriadedig a'r modd y byddant yn cael eu monitro gael eu datgan yn eglur yn y cynlluniau comisiynu a'r contractau.

Un ffordd o'r fath o ddiffinio canlyniadau a mesurau a ddefnyddir i dracio cynnydd yw'r dull 'Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau'. Mae Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau yn syml yn ystyried dau fath o atebolrwydd:

- '*Atebolrwydd Pobl* sy'n ymwneud â phoblogaethau cyfan, ni waeth pa un a ydynt yn cael unrhyw wasanaethau ai peidio. Felly nid yw canlyniadau a gyflawnir ar y lefel hon yn cael eu cyflawni gan sefydliadau unigol ac mae angen i'r atebolrwydd am eu cyflawni gael ei rannu.

- *‘Atebolrwydd Perfformiad*, sy’n ystyried poblogaethau cleientiaid penodol, neu mewn geiriau eraill, pobl sy’n derbyn ein gwasanaethau. Mewn llawer o achosion, er eu bod yn dal i weithio gyda rhanddeiliaid eraill, mae asiantaethau a gontractir i ddarparu gwasanaeth yn cadw atebolrwydd am hyn. Mae mesurau o berfformiad yma’n ein helpu i feintioli pa mor dda y mae rhaglen neu wasanaeth yn cael ei d(d)arparu.

### 1.4.7 Datgomisiynu

Mae datgomisiynu’n rhan naturiol o’r broses gomisiynu a gall ddigwydd dan ystod eang o amgylchiadau, gan gynnwys:

- Dod â gwasanaeth i ben yn gyfan gwbl h.y. nid yw gwasanaeth yn cael ei ailgomisiynu.
- Cyfuno rhannau o wasanaethau presennol i greu un gwasanaeth newydd, gwahanol.
- Fel rhan o broses ehangach i ailddylunio gwasanaethau, lle nad yw gwasanaeth yn cael ei ddarparu mwyach a lle mae’n cael ei ddatgomisiynu neu ei gyfuno â gwasanaethau eraill.
- Toriadau mewn cyllidebau sy’n arwain at ailgomisiynu gwasanaeth newydd.

Mae datgomisiynu gwasanaethau’n effeithiol mor bwysig â chomisiynu gwasanaethau a dylai comisiynwyr sicrhau y caniateir amser priodol mewn unrhyw broses gomisiynu i’w gwneud yn bosibl gweithredu proses ddatgomisiynu mewn modd wedi’i gynllunio.

Er mwyn galluogi comisiynwyr i ddatgomisiynu’n effeithiol mae angen cyfathrebu’n dda gyda’r holl randdeiliaid. Dylai comisiynwyr sicrhau bod dealltwriaeth gynhwysfawr am anghenion defnyddwyr, gwasanaethau a darpar wasanaethau ac effaith bosibl unrhyw newidiadau arfaethedig i wasanaethau. Bydd hyn yn galluogi comisiynwyr i adnabod a rheoli risg yn briodol wrth ystyried datgomisiynu unrhyw wasanaeth.

Mae’r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cynhyrchu pecyn cymorth defnyddiol ar gyfer datgomisiynu sydd ar gael yma: http://www.nao.org.uk/decommissioning/

Mae’r pecyn cymorth hwn yn darparu gwybodaeth am ddull graddol o ddatgomisiynu, gan roi sylw i’r elfennau canlynol:

- Gwneud penderfyniad i ddatgomisiynu.
- Ailddylunio gwasanaethau
- Cynllunio proses ddatgomisiynu
- Cyflawni proses ddatgomisiynu
- Effaith datgomisiynu

## *1.5 Themâu Trawsbynciol*

### 1.5.1 Gweithio gyda’r Trydydd Sector.

Defnyddir y term Trydydd Sector yng Nghymru fel disgrifiad cynhwysol a throsfwaol o ystod amrywiol iawn o sefydliadau sy’n rhannu set o werthoedd a nodweddion.

Gall y mathau o sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yn y diffiniad hwn amrywio o gymdeithasau cymunedol neu elusennol bach i gymdeithasau tai mwy a sawl amrywiad rhwng y ddau. Ym mis Ionawr 2014 fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Gynllun y Trydydd Sector' sef y fframwaith polisi allweddol sy'n tanategu perthynas Llywodraeth Cymru â'r Trydydd Sector yng Nghymru ac yn nodi bwriadau Gweinidogion Cymru o ran symud y berthynas hon yn ei blaen.

Wedi'i atodi wrth y cynllun mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector. Mae'r Cod hwn yn darparu gwybodaeth am ddull ariannu Llywodraeth Cymru, gydag adrannau ar Gomisiynu, Grantiau a Chaffael ac felly bydd ei 17 egwyddor yr un mor berthnasol i sefyllfaoedd lle mae BCAau yn rhoi comisiwn i sefydliadau yn y trydydd sector. Bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld tystiolaeth bod y canllawiau hyn yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn ei gwaith gyda'r Trydydd Sector ac yn enwedig bod trafodaeth gynnar yn cael ei chynnal gyda sefydliadau'r Trydydd Sector gyda thystiolaeth yn cael ei chynnwys o'u hymgysylltiad â'r broses gomisiynu lle y bo'n briodol. I gael mwy o wybodaeth am y cynllun mae'r ddogfen ar gael yn:
http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/voluntarysector/publications/third-sector-scheme/?lang=cy

Mae angen i unrhyw drefniant comisiynu sicrhau hefyd nad yw sefydliadau llai yn y trydydd sector ledled Cymru yn cael eu rhoi o dan anfantais rhag tendro am gontract i ddarparu unrhyw wasanaeth penodol gan y broses a'r disgwyliadau sy'n cael eu cymhwyso. Bydd ymlynu wrth yr egwyddorion ym Mholisi Caffael Cymru, a amlygir yn adran 1.5.2 ac atodiad dau yn galluogi'r BCA i sicrhau nad yw hyn yn digwydd.

### 1.5.2 Sicrhau bod Gweithgareddau Caffael yn cael eu cyflawni yn unol ag Arfer Gorau

Yn 2012 fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Polisi Caffael Cymru a oedd yn nodi'n eglur yr arferion caffael a'r camau penodol sydd bellach yn ofynnol i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Dylai BCAau wneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn cydymffurfio ac yn mabwysiadu pob rhan o'r canllawiau sydd ar gael trwy'r Canllaw Cynllunio Caffael ar y we, yn http://prp.wales.gov.uk/. Mae hwn yn cynnwys cyfres lawn o ganllawiau cam wrth gam ar-lein a ddatblygwyd yn benodol ar gyfer contractio gwasanaethau gofal cymdeithasol, sy'n cynnwys llawer o dempledi defnyddiol a chyngor ymarferol. Bydd cydymffurfio â'r canllawiau hyn yn helpu i sicrhau yr ymlynir wrth Reoliadau Caffael yr UE a deddfwriaeth berthnasol ym maes gofal cymdeithasol.

Bydd y gyfres hon o ganllawiau o gymorth o ran gwneud penderfyniadau caffael ar sail ansawdd/cost/risg gan ei gwneud yn bosibl ystyried effaith fwy hirdymor penderfyniadau a wneir. Ceir adran yn y canllaw cynllunio caffael hefyd, sy'n dwyn y teitl 'fframwaith strategol' ac sy'n darparu gwybodaeth ychwanegol am y canllawiau allweddol ar strategaethau i gefnogi gwaith ar y cyd a chydweithio.

Mae hefyd yn bwysig bod gan bob BCA broses sydd wedi'i diffinio'n eglur i alluogi rhanddeiliaid i godi unrhyw bryderon ynghylch caffael. Fel arfer bydd hyn yn cael ei wneud trwy godi pryderon gyda'r awdurdod caffael arweiniol i ddechrau ac os oes angen gyda chadeirydd y BCA perthnasol. Os nad yw pryderon yn cael eu datrys naill ai gyda'r awdurdod caffael neu'r BCA, gall Gwerth Cymru gynorthwyo hefyd. Bydd gofyn i BCAau ddogfennu eu proses ar gyfer ymdrin â'r pryderon hyn a disgwylir i hon gael ei chadarnhau gan y BCA.

### 1.5.3 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 a rheoliadau cysylltiedig o ran dyletswyddau cydraddoldeb penodol y sector cyhoeddus yng Nghymru'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau perthnasol yng Nghymru gan gynnwys y gofyniad i gyhoeddi amcanion cydraddoldeb. Mae'n ofynnol i awdurdodau gyhoeddi datganiad sy'n nodi'r camau a gymerir i gyflawni pob amcan cydraddoldeb a hefyd i fonitro'r cynnydd o ran cyflawni'r amcanion hynny. Bydd Amcanion Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru (sydd wedi'u cynnwys mewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol) yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus a chyflogaeth yn deg, yn hygyrch, yn ymatebol i anghenion pobl, a bod cymunedau'n gynhwysol. Ni ddylai pobl gael eu trin yn llai ffafriol oherwydd eu rhyw, hil, iaith, ffydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, beichiogrwydd a mamolaeth, am eu bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil, eu bod yn anabl neu'n drawsryweddol. Mae'r amcanion hyn yn tanategu gwaith Llywodraeth Cymru, gan sicrhau dull cydgysylltiedig o gyflawni canlyniadau gwell i bobl Cymru a chan hynny mae'n ofynnol i'r BCAau fabwysiadu'r egwyddorion hyn o fewn eu gwaith eu hunain.

Dylai BCAau sicrhau, pan ydynt yn datblygu ac yn gweithredu strategaeth gomisiynu, eu bod yn ystyried yr effeithiau ar y rhai â nodweddion gwarchodedig, fel a nodir yn Neddf 2010, wrth wneud penderfyniadau.

### 1.5.4 Gofynion o ran y Gymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y Gymraeg yn rhan annatod o hunaniaeth Cymru ac mae'n ymrwymedig i greu Cymru wirioneddol ddwyieithog, lle gall pobl fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg neu'r ddwy iaith. Fe gadarnhaodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru ac fe sefydlodd rôl Comisiynydd y Gymraeg. Prif rôl y Comisiynydd yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru – Iaith Fyw: Iaith Byw – a'i Chynllun Iaith Gymraeg, ill dau wedi'u bwriadu i brif ffrydio'r Gymraeg yn fwy ym mhob agwedd ar waith Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng nghymunedau Cymru.

Mae 'Mwy na geiriau', a gyhoeddwyd yn 2012, wedi cael ei ddatblygu i gryfhau gwasanaethau iaith Gymraeg ymhlith gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol rheng flaen. Mae'r fframwaith hwn yn darparu dull systematig o wella gwasanaethau i'r rhai ac arnynt angen neu sy'n dewis derbyn eu gofal yn Gymraeg. Byddai disgwyl i BCAau ymateb i'r angen hwn wrth gomisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau hefyd; gweler atodiad 2 am fwy o wybodaeth am y cyhoeddiad hwn.

Mae gwefan Comisiynydd y Gymraeg yn cynnwys mwy o wybodaeth am ddefnyddio'r Gymraeg hefyd ac mae ar gael yn:
http://www.comisiynyddygymraeg.org

### 1.5.5 Plant a Phobl Ifanc

Mae camddefnyddio sylweddau ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru'n her gydnabyddedig i gomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau. Er mwyn lleihau nifer yr achosion, niwed a'r canlyniadau cysylltiedig mae'n bwysig darparu gwasanaethau

sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac arfer da. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dwy ddogfen gyfarwyddyd mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau a phlant a phobl ifanc. Gofynnir i'r BCA ystyried cynnwys y ddau wrth gomisiynu gwasanaethau i blant a phobl ifanc a datblygu trefniadau pontio rhwng gwasanaethau i blant ac i oedolion.

Mae'r ddwy ddogfen, sef 'Gofal Integredig i Blant a Phobl Ifanc Hyd at 18 Oed sy'n Camddefnyddio Sylweddau' (2010) a'r 'Crynodeb o Ganllawiau Arfer Da ar Ofal Integredig i Blant a Phobl Ifanc hyd at 18 oed sy'n Camddefnyddio Sylweddau' (2012) ar gael yn: www.gov.uk/substancemisuse. Gweler atodiad 2 hefyd am fwy o wybodaeth ac am gyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

### 1.5.6 Pobl hŷn.

Mae'r sylw a roddir i gamddefnyddio sylweddau ymhlith pobl hŷn fel grŵp o bobl ar wahân yn weddol fach. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw'n cael ei adnabod a'i drin yn ddigonol yn y grŵp oedran hwn er eu bod yn fwy tueddol o ddioddef niwed ar lefelau is na phobl iau. Mae'n ofynnol felly i BCAau sicrhau bod mynediad at driniaeth camddefnyddio sylweddau ar gyfer y rhai dros 50 oed yn cael ei wella. I roi cymorth yn hyn o beth, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau sy'n dwyn y teitl 'Gwella Mynediad i Driniaeth Camddefnyddio Sylweddau i Bobl Hŷn' sydd hefyd ar gael yn http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/substancemisuse/?skip=1&lang=cy.

### 1.5.7 Trechu Tlodi

Mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn glir bod trechu tlodi yn amcan sy'n flaenoriaeth a bod yn rhaid dod o hyd i ffyrdd o atal a lleihau tlodi yng Nghymru a gwneud hynny'n ffocws allweddol ar lefel genedlaethol a lleol. Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a gyhoeddwyd yn 2013 yn dynodi bod yn rhaid defnyddio adnoddau i helpu'r rhai sydd fwyaf mewn angen a cheisio atal cenedlaethau'r dyfodol rhag profi tlodi. Bydd yn ofynnol i'r BCA ystyried materion tlodi drwyddi draw yn eu proses gomisiynu a dylent ystyried meysydd lle gallai cynllunio a chydgysylltu gwasanaethau ar y cyd â rhaglenni trechu tlodi megis Cymunedau yn Gyntaf, Cefnogi Pobl a Teuluoedd yn Gyntaf wella'r canlyniadau i grwpiau incwm isel.

Un o'r meysydd allweddol y gofynnir i BCAau eu hystyried wrth drechu tlodi yw'r defnydd priodol o gymalau manteision cymunedol; mae hyn eisoes yn ofyniad datganedig wrth ystyried ceisiadau am gyllid cyfalaf ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

Trwy ystyried manteision cymunedol gall BCAau sicrhau lle bynnag y bo'n bosibl bod contractau cyhoeddus yn cynnig cyfleoedd i bobl ddifreintiedig / grwpiau targed gael cyflogaeth a hyfforddiant i wella cyflogadwyedd a thorri cylch amddifadedd a thlodi.

## 1.6 Trefniadau Llywodraethu Byrddau Cynllunio Ardal.

Er mwyn sicrhau bod y canlyniadau bwriadedig i randdeiliaid yn cael eu diffinio a'u cyflawni mae angen sefydlu trefniadau llywodraethu da. Datganodd Ffederasiwn Rhyngwladol y Cyfrifyddion (IFAC) a Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth – CIPFA (2014) mai un o'r swyddogaethau sylfaenol yn hyn o beth yw sicrhau bod y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni gan weithredu er lles y cyhoedd hefyd, sy'n galw am ymddwyn ag uniondeb, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheolaeth y gyfraith ochr yn ochr â sicrhau didwylledd ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid.

Yn ychwanegol at yr egwyddorion trosfwaol hyn, mae CIPFA yn datgan bod llywodraethu da yn y sector cyhoeddus yn galw am drefniadau effeithiol ar gyfer y canlynol hefyd:

- Diffinio canlyniadau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.
- Pennu'r ymrwymiadau sy'n angenrheidiol fel bod y canlyniadau bwriadedig yn cael eu cyflawni yn y ffordd orau bosibl.
- Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys galluedd ei arweinwyr a'r unigolion ynddo.
- Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth gref ar arian cyhoeddus.
- Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio, i gyflawni atebolrwydd effeithiol.

Mae'r gwerthoedd craidd yr un mor berthnasol mewn BCA a chânt eu hadlewyrchu yn y tasgau penodol y dylid eu cyflawni fel rhan o ddatblygu strategaeth gomisiynu.

Mae'r 'Canllawiau i Fyrddau Cynllunio Ardal' a gyhoeddwyd yn 2012 yn cynnwys memorandwm cyd-ddealltwriaeth enghreifftiol sy'n nodi'r trefniadau llywodraethu awgrymedig. Mae angen i bob BCA sicrhau bod ei drefniadau ariannol / rheoli ac atebolrwydd wedi'u nodi'n eglur gan gynnwys cysylltiadau â threfniadau presennol ar gyfer cyfuno risgiau os yn berthnasol. Dylai'r trefniadau hyn bennu hefyd pa benderfyniadau y mae'n eu cadw yn ôl i'w hun a pha bwerau sydd wedi cael eu dirprwyo i eraill h.y. tîm cymorth y BCA neu is-grŵp perthnasol.


Mae mwy o gyngor ac arweiniad ar lywodraethu da ar gael hefyd yn:

- Llywodraethu mewn Partneriaethau Iechyd Cymunedol: http://www.audit-scotland.gov.uk/docs/health/2006/nr_060822_governance_health_issues.pdf
- Gwasanaethau alcohol a chyffuriau: rhestr wirio hunanasesu i bartneriaid: http://www.audit-scotland.gov.uk/good_practice/partnership.php
- Pecyn cymorth gwerth gorau: Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth: http://www.audit-scotland.gov.uk/docs/best_value/2010/bv_100809_partnership_working_toolkit.pdf
- Llywodraethu Partneriaethau (Y Comisiwn Archwilio): http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20150421134146/http://archive.audit-commission.gov.uk/auditcommission/aboutus/publications/pages/national-reports-and-studies-archive.aspx.html

- Llawlyfr e-lywodraethu’r GIG: Llywodraethu mewn Partneriaeth: http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/home

## 2.0. Fframwaith ar gyfer Comisiynu

Mae'r diagram isod, a ddatblygwyd yn wreiddiol gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus ym Mhrifysgol Brookes Rhydychen, yn darlunio'r berthynas rhwng y gweithgareddau sy'n rhan o gomisiynu a chaffael.




Mae'r fframwaith yn gosod comisiynu mewn cylch pedwar cam sy'n cynnwys y tasgau canlynol:

- **Dadansoddi:** Deall pwrpas yr asiantaethau cysylltiedig, anghenion y mae'n rhaid iddynt fynd i'r afael â hwy, a'r amgylched y maent yn gweithredu ynddo.
- **Cynllunio:** Adnabod y bylchau rhwng yr hyn y mae ei angen a'r hyn sydd ar gael, a chynllunio sut i fynd i'r afael â'r bylchau hyn.
- **Gweithredu (sicrhau gwasanaethau):** Sicrhau bod y gwasanaethau angenrheidiol yn cael eu darparu yn ôl yr hyn a gynlluniwyd.
- **Adolygu:** Monitro effaith gwasanaethau, a gwerthuso i ba raddau y maent wedi cyflawni eu pwrpas.

Yn dilyn y cylch comisiynu, mae'r **cam dadansoddi** yn cynnwys gweithgareddau fel:

- Egluro'r pwrpas cyffredinol a'r amcanion strategol a'r sail ymchwil a gwybodaeth ar gyfer y gwasanaethau.
- Dadansoddi anghenion, adnabod anghenion yr holl boblogaeth ar hyn o bryd a'i hanghenion tebygol yn y dyfodol am y gwasanaethau perthnasol - gall hyn gynnwys ystyried tueddiadau poblogaeth yn ogystal â thueddiadau mewn

defnydd o alcohol neu gyffuriau, i greu darlun o anghenion tebygol yn y dyfodol.

- Dadansoddi’r farchnad, mapio ac adolygu gwasanaethau a chontractau presennol yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol, cyfiawnder troseddol (cymunedol a charchardai) a gwirfoddol / preifat, deall cryfderau a gwendidau darparwyr ac adnabod cyfleoedd i ddarparwyr wella neu newid.
- Dadansoddi adnoddau, adnabod yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd, a chytuno ar adnoddau’r dyfodol, ar draws asiantaethau, a fydd yn cael eu dyrannu i ddiwallu anghenion pobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau gyda’r holl asiantaethau.

Mae **cam cynllunio'r** cylch comisiynu’n ymwneud â nodi sut y bydd asiantaethau comisiynu’n hyrwyddo datblygiad gwasanaethau i ddiwallu anghenion y boblogaeth dan sylw. Mae hyn yn cynnwys:

- Dadansoddi’r bylchau gan ddefnyddio’r wybodaeth sydd ar gael i adolygu’r system gyfan a nodi’r hyn y mae ei angen yn y dyfodol.
- Nodi bwriadau comisiynu strategol a pha ganlyniadau yr ydych yn dymuno’u cyflawni.
- Cynllunio trwy ysgrifennu strategaeth gomisiynu sy’n nodi’n glir beth yw’r blaenoriaethau ar gyfer datblygu gwasanaethau.

Mae **cam gweithredu (sicrhau gwasanaethau)** y cylch comisiynu yn ymwneud â gweithgareddau i sicrhau bod darparwyr yn darparu eu gwasanaethau mewn ffyrdd sy’n cyflawni blaenoriaethau a thargedau'r strategaeth gomisiynu’n effeithiol ac effeithlon. Gall hyn gynnwys:

- Rheoli cydbwysedd gwasanaethau. Sicrhau bod gwasanaethau’n gynaliadwy ac yn rhoi gwerth am arian. Sicrhau cymysgedd da o ddarparwyr gwasanaethau gan gynnig elfen o ddewis i ddefnyddwyr o ran y ffordd y diwellir eu hanghenion.
- Disgrifio’n eglur beth yw natur y gwasanaethau yr ydych yn dymuno’u prynu a’r canlyniadau yr ydych yn dymuno’u cyflawni a bod â dulliau eglur o fesur cynnydd mewn perthynas â’r rhain.
- Gwneud trefniadau contract effeithiol ar gyfer dewis y darparwyr gwasanaethau mwyaf priodol, a fydd yn darparu gwasanaethau o ansawdd da sy’n rhoi’r gwerth gorau am arian.
- Gwneud trefniadau i sicrhau ansawdd gwasanaethau, gan gynnwys nodi’r meini prawf sicrhau ansawdd y dylid eu cynnwys mewn contractau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau’n cyrraedd y safonau gofynnol.
- Caffael gwasanaethau newydd a datgomisiynu gwasanaethau nad ydynt yn diwallu anghenion y grŵp cleientiaid.

Yn olaf, mae **cam adolygu'r** cylch comisiynu’n cynnwys monitro, gwerthuso ac adolygu’r strategaeth gomisiynu, penderfynu i ba raddau y cyflawnwyd blaenoriaethau ac y cyrhaeddwyd targedau’r strategaeth, a nodi pa newidiadau y

mae angen eu gwneud i'r strategaeth neu'r gwasanaethau yn sgîl hynny. Gall hyn gynnwys:

- Casglu gwybodaeth o gontractau neu gytundebau lefel gwasanaeth unigol.
- Cynnal dadansoddiad i ganfod a yw'r amcanion comisiynu strategol yn cael eu cyflawni.
- Dadansoddi unrhyw newidiadau yn anghenion y boblogaeth, adolygu effaith gyffredinol y gwasanaethau, ac ystyried effeithiolrwydd modelau gwasanaeth ar draws y farchnad i ymateb i wahanol anghenion sydd gan bobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau.
- Nodi'r diwygiadau y mae angen eu gwneud i'r blaenoriaethau a'r targedau strategol.

Mae gweddill y ddogfen hon yn egluro pedwar cam y cylch comisiynu mewn mwy o fanylder, ac yn disgrifio'r gweithgareddau y bydd yn rhaid i BCAau eu cyflawni i reoli gwaith comisiynu'n effeithiol ym mhob un o'r camau hyn.

Mae Atodiad 5 yn darparu trosolwg o'r holl gamau i'w hystyried wrth ysgrifennu'r strategaeth gomisiynu.

### 2.0.1 Pennu cwmpas y gwaith sy'n ofynnol

Fel unrhyw dasg rheoli, mae angen mynd ati'n ofalus i bennu cwmpas gweithgareddau comisiynu, eu cynllunio a darparu adnoddau ar eu cyfer er mwyn sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r materion cywir, yn cynnwys y bobl gywir, ac yn cynnwys y gweithgareddau cywir i gwblhau'r gwaith. Er mwyn datblygu a gweithredu cynllun comisiynu'n llwyddiannus bydd angen cael atebion eglur i'r cwestiynau canlynol:


- Cynllun comisiynu pwy ydyw, a pha fath o ddogfennau fydd yn cael eu cynhyrchu?
- Pwy yw'r dinasyddion y bwriedir i'r cynllun comisiynu ddiwallu eu hanghenion?
- Pa ofynion cenedlaethol a pha ymrwymiadau rhanbarthol a lleol fydd y cynllun comisiynu'n mynd i'r afael â hwy?
- Pa ganlyniadau ydych chi'n ceisio'u cyflawni wrth ddatblygu'r cynllun comisiynu?
- Pa wasanaethau y mae angen eu hystyried yn y cynllun comisiynu e.e. iechyd, addysg, gofal cymdeithasol, tai, cyfiawnder troseddol ac ieuenctid?
- Pa gyfnod fydd y cynllun comisiynu'n ymdrin ag ef? Dylai hyd y cynllun alluogi cynaliadwyedd a bod o gymorth gyda chynllunio ar gyfer y tymor hwy.
- Pwy fydd yn gwneud y gwaith i ddatblygu'r cynllun comisiynu, a faint o amser fydd ei angen arnynt?
- Pryd mae angen cwblhau'r cynllun comisiynu – pryd mae angen ei weithredu?
- Sut fydd dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu'r cynllun comisiynu?
- Sut fydd rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys y trydydd sector a'r sector preifat, yn gallu cyfrannu at y cynllun comisiynu?

Mae angen cytuno ar yr ymatebion i'r cwestiynau hyn ar adeg gynnar ar lefel y BCA i'w gwneud yn bosibl i strategaeth gomisiynu gael ei gweithredu'n llwyddiannus.

Mae Atodiad 1a yn darparu templed sydd wedi'i fwriadu i helpu'r BCA i fynd i'r afael â'r materion allweddol cyn dechrau.

Mae Atodiad 1b yn darparu pwyntiau allweddol mewn perthynas â'r camau dadansoddi a chynllunio yn y broses ac mae Atodiad 1c yn canolbwyntio ar ysgrifennu'r cynllun comisiynu ei hun.

### 2.1 Y Cam Dadansoddi – Casglu Gwybodaeth




Mae cam dadansoddi'r cylch comisiynu yn cynnwys y gweithgareddau canlynol, a fydd yn eich helpu i bennu'r sail ar gyfer eich strategaeth gomisiynu:

- Egluro diben a nodau strategol y BCA, gan ystyried blaenoriaethau camddefnyddio sylweddau Cymru gyfan a lleol.
- Dadansoddi anghenion.
- Dadansoddi'r farchnad, mapio gwasanaethau presennol, gan cynnwys trefniadau contractio ac ansawdd gwasanaethau.
- Dadansoddi'r adnoddau ar gyfer y strategaeth gomisiynu.

Caiff y gweithgareddau hyn eu hystyried yn eu tro isod.

#### 2.1.1 Diben a Nodau Strategol y BCA

Y rheswm dros y gweithgaredd hwn yw creu safbwynt cyffredin ledled y BCA am ddiben a nodau strategol gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, yn seiliedig ar y blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ar gyfer mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau. Mae'r weledigaeth yn gosod y cywair ar gyfer y strategaeth gomisiynu. Mae'n egluro beth y mae'n rhaid ei gynnwys yn y strategaeth, yn diffinio ffiniau'r boblogaeth y mae'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau wedi'u bwriadu ar eu cyfer ac yn nodi pa asiantaethau partner sy'n gysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu a chytuno ar y strategaeth. Dylai sbardunau strategol Cymru gyfan a lleol oleuo nodau strategol eang y BCA, ac mae angen i'r rhain gael eu tanategu gan werthoedd a chanlyniadau rennir.

I gynhyrchu datganiad o ddiben cyffredin a nodau strategol i'r BCA, dylid ystyried y meysydd a nodir yn yr adrannau isod:

- Aelodaeth, swyddogaethau a gwerthoedd y BCA.
- Sefydlu swyddogaeth gomisiynu eglur o fewn y BCA.
- Yr agenda genedlaethol, ymchwil ac arfer gorau ar gyfer mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru.
- Yr agenda ranbarthol a lleol.

***Aelodaeth, Swyddogaethau a Gwerthoedd y BCA***

Bydd angen nodi hefyd beth yw rolau a chyfrifoldebau amrywiol yr asiantaethau a'r unigolion yn y BCA.

Mae gan awdurdodau cyfrifol y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru gylch gorchwyl i sicrhau y darperir gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar gyfer eu hardal. Bydd rôl gryfach y BCA o gymorth i'r awdurdodau hyn gyflawni eu cyfrifoldebau trwy fforwm rhanbarthol.

Mae'r grŵp hwn yn ystyried y rhan fwyaf o'r comisiynwyr o fewn aelodaeth BCA. Fodd bynnag, mae angen cadw cysylltiadau â gwaith comisiynu ym maes cyfiawnder troseddol hefyd ac felly bydd angen ymgynghori â swyddogion o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu etholedig ynghylch datblygu unrhyw strategaeth gomisiynu sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw strategaeth gomisiynu'n ystyried y Cynllun Heddlu a Throseddu. Dylai'r BCA weithio gyda'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMs) i sicrhau bod anghenion y rhai sydd mewn carchar yng Nghymru neu'r rhai sy'n dod yn ôl i Gymru yn dilyn dedfryd o garchar yn cael eu cymryd i ystyriaeth.

Mae gan asiantaethau eraill sydd heb gyfrifoldeb am gomisiynu megis darparwyr gwasanaethau, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr rôl wahanol ond allweddol, i helpu comisiynwyr i wneud y penderfyniadau comisiynu gorau ar gyfer eu cymuned.

O fewn y broses gomisiynu mae angen gwahanu'n eglur rhwng y cyfrifoldebau hyn ond mae'r ddwy elfen yn hanfodol er mwyn cael canlyniad effeithiol. Felly mae'n rhaid i'r BCA sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn deall sut a phryd i wneud eu cyfraniadau.

Mae'r Canllawiau ar gyfer BCAau (2012) yn darparu mwy o fanylion am aelodaeth y BCAau a'u rolau a chyfrifoldebau penodol.

***Sefydlu Swyddogaeth Gomisiynu Eglur o fewn y BCA.***

Deallir nad yw'n briodol i holl aelodau'r BCA fod yn bresennol ar gyfer rhai o'i swyddogaethau, er enghraifft perfformiad, cyllid neu faterion rheoli contractau ac yn yr achosion hyn mae'r canllawiau ar gyfer BCAau yn awgrymu sefydlu is-grwpiau priodol i arwain yr elfennau hyn o'r gwaith.

***Yr Agenda Genedlaethol, Ymchwil ac Arfer Gorau sydd Ar Gael***

Y dasg gyntaf yw nodi a chyfiawnhau'r polisïau a'r egwyddorion allweddol a fydd yn sail i'r strategaeth gomisiynu. Gellir gwneud hyn trwy ddethol themâu allweddol o'r cyd-destun cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, ac o ymchwil, canllawiau cenedlaethol ac arfer da. I helpu gyda'r dasg hon, mae Atodiad

2 yn cynnwys crynodebau o bolisïau a chanllawiau cenedlaethol, ymchwil ac arfer da perthnasol.

***Yr Agenda Ranbarthol a Lleol***

Dylid dadansoddi'r blaenoriaethau cyfredol ar gyfer y BCA, gan gynnwys er enghraifft:

> *Ffiniau ar gyfer comisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau penodol* – Dylai'r ffiniau ar gyfer comisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau gael eu diffinio'n glir o ran y grŵp cleientiaid a'r ardal. Os oes gwasanaethau penodol a fydd yn cael eu comisiynu ar y cyd gyda BCAau eraill, ar draws ardaloedd daearyddol a/neu grwpiau defnyddwyr gwasanaethau penodol, yna dylid datgan hyn yn eglur.
>
> *Sbardunau strategol lleol* – Bydd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol / Byrddau Gwasanaethau Lleol a.y.b. yn cwblhau asesiadau a fyddai'n cael eu defnyddio'n ymarferol i oleuo'r cynllun comisiynu rhanbarthol ac a fydd yn ei gwneud yn bosibl canolbwyntio'n barhaus ar gamau gweithredu cyffredin y gellir eu cymryd ar lefel ranbarthol i sicrhau bod cysylltiadau priodol yn cael eu creu. Bydd cynlluniau tymor canolig integredig y byrddau iechyd yn ffynhonnell gwybodaeth hefyd wrth ystyried y blaenoriaethau presennol ar gyfer y BCA (cyfeiriwch at Atodiad 2 i gael mwy o wybodaeth).

**RHESTR WIRIO: DIBEN A NODAU STRATEGOL Y BCA**
Cyn symud i elfen nesaf y cam hwn, gwnewch yn siŵr eich bod wedi:

- Egluro aelodaeth, rolau a gwerthoedd y BCA.
- Sefydlu swyddogaeth gomisiynu eglur o fewn y BCA.
- Egluro'r cysylltiadau â BCAau eraill a threfniadau cenedlaethol.
- Dadansoddi'r agenda genedlaethol, ymchwil ac arfer gorau wrth fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru.
- Dadansoddi agendâu eich asiantaethau rhanbarthol a lleol.
- Cytuno ar ddatganiad o ddiben a nodau strategol ar gyfer y BCA.

### 2.1.2 Dadansoddi Anghenion

Mae cam dadansoddi anghenion y cylch comisiynu'n ymwneud â sicrhau bod bwriadau comisiynu'n seiliedig ar ddealltwriaeth am angen mewn perthynas ag argaeledd ac ansawdd gwasanaethau, a maint a natur y broblem camddefnyddio sylweddau'n lleol. Byddai dadansoddiad o anghenion cwbl gynhwysfawr yn cynnwys pob un o'r gweithgareddau a ddisgrifir yn yr adrannau isod:

- Dadansoddiad demograffig gan cynnwys dadansoddiad o iechyd y cyhoedd, a hwnnw'n cynnwys anghenion yn awr ac anghenion a ragwelir yn y dyfodol
- Canfyddiadau ymchwil mewn perthynas â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.
- Ymgynghori â darparwyr gwasanaethau.

Dylai BCAau sicrhau hefyd eu bod yn adolygu cynlluniau strategol eraill i'w gwneud yn bosibl i waith gael ei 'gydgysylltu' yn briodol, gan gynnwys asesiadau strategol yr heddlu, Cynlluniau Heddlu a Throseddu a chynlluniau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

Mae canllawiau ynghylch cyfrifoldebau a dyletswyddau gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu trefniadau integredig ar gyfer asesu a rheoli gofal ar gyfer pobl hŷn i'w cael trwy ddilyn y ddolen isod:

http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/guidance1/assessment1/?lang=cy

Hefyd, dylai BCAau ymegnïo i ymgysylltu â'r rhai nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau ar hyn o bryd neu nad ydynt erioed wedi defnyddio gwasanaethau. Bydd cadarnhau'r rhesymau pan nad yw pobl wedi ymgysylltu â gwasanaethau'n flaenorol yn galluogi'r BCA i deilwra gwasanaethau ar gyfer y grŵp hwn sy'n 'anodd i'w gyrraedd'.

***Dadansoddiad Demograffig***

Diben cynnal dadansoddiad demograffig yw amcangyfrif faint o angen sydd mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau ar draws y boblogaeth a wasanaethir gan y BCA a ble mae'r angen hwnnw. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, mae angen y mathau canlynol o ddata:

- Data ynghylch y boblogaeth wedi'i ddadgyfuno yn ôl oedran, rhyw, ethnigrwydd, anghenion o ran y Gymraeg, lleoliad a phatrymau symud.
- Cyfraddau cenedlaethol a rhanbarthol o ran pa mor gyffredin yw problemau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol wedi'u dadgyfuno yn ôl oedran, rhyw, ethnigrwydd, darlun economaidd-gymdeithasol a lleoliad.
- Niferoedd y bobl sy'n hysbys i wasanaethau camddefnyddio sylweddau.
- Yr amrywiaeth o sylweddau a gamddefnyddir ymysg y boblogaeth, pa mor gyffredin ydynt mewn cymhariaeth â'i gilydd a nifer yr achosion.

Er mwyn sefydlu amcangyfrif sylfaenol o faint a lleoliad yr angen, gall cyfraddau o ran nifer yr achosion a gafwyd o waith ymchwil gael eu cymhwyso i ddata ynghylch y boblogaeth.

Trwy gymharu nifer y bobl ac arnynt angen gwasanaethau camddefnyddio sylweddau gyda'r niferoedd a'r mathau o ddefnyddwyr y gwyddys eu bod yn derbyn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, mae'n bosibl amcangyfrif yr angen nas diwallwyd eto, mewn perthynas â grwpiau penodol o'r boblogaeth, mathau o wasanaethau a lleoliad daearyddol.

Mae Atodiad 4 yn cynnwys gwybodaeth a dolenni i ffynonellau gwybodaeth defnyddiol i'ch helpu i lunio eich dadansoddiad demograffig, gan gynnwys ffynonellau data iechyd y cyhoedd.

***Canfyddiadau Ymchwil mewn perthynas â Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr***

Mae ystyried yr anghenion perthnasol a nodwyd yn uniongyrchol gan y bobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn elfen bwysig wrth asesu angen. Ar y pwynt hwn o'r cylch comisiynu gallai fod yn ddefnyddiol iawn ystyried ymchwil genedlaethol neu leol bresennol mewn perthynas â defnyddwyr a gofalwyr neu ganfyddiadau o ymgyngoriadau lleol diweddar gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, gan cynnwys eu safbwyntiau ar faint y broblem camddefnyddio sylweddau a'r canlyniadau a ddymunir ganddynt.

***Ymgynghori â Darparwyr Gwasanaethau***

Mae darparwyr gwasanaethau yn gallu defnyddio eu cyswllt o ddydd i ddydd gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, a'u gwybodaeth ymarferol am yr hyn sy'n llwyddo, i oleuo cam dadansoddi anghenion y cylch comisiynu. Mae safbwyntiau rheolwyr ac ymarferwyr yr asiantaethau darparu yn elfen werthfawr, a gellir eu casglu trwy:

- Gyfarfodydd gyda darparwyr gwasanaethau unigol.
- Fforymau darparwyr gwasanaethau.
- Grwpiau ffocws.
- Holiaduron.

**RHESTR WIRIO: DADANSODDI ANGHENION**

Cyn symud i elfen nesaf y cam hwn gwnewch yn siŵr eich bod wedi cwblhau dadansoddiad cynhwysfawr o anghenion, a hwnnw'n cynnwys:

- Dadansoddiad demograffig gan gynnwys dadansoddiad o ddata ynghylch iechyd y cyhoedd.
- Canfyddiadau ymchwil mewn perthynas â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.
- Ymgynghori â darparwyr gwasanaethau.

### 2.1.3 Dadansoddi'r Farchnad

Yn yr elfen hon o gam dadansoddi'r cylch comisiynu rydych yn ceisio cael darlun cyffredinol o amrywiaeth ac ansawdd presennol y gwasanaethau sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau yn eich rhanbarth. I wneud hyn, mae cyfuniad o bedwar gweithgaredd yn ddefnyddiol:

- Mapio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau presennol.
- Mapio trefniadau contract presennol.
- Dadansoddi ansawdd gwasanaethau.
- Ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd a gofalwyr.

***Mapio Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau Presennol***

Mae mapio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau presennol yn elfen bwysig o gynllunio strategol ac mae angen i chi gael darlun cyffredinol o'r canlynol, er enghraifft:

- Argaeledd a lleoliad y gwasanaethau presennol ar draws yr holl ddarparwyr. Dylai hyn hefyd gynnwys mapio'r ddarpariaeth o ran fferyllfeydd os yw gwasanaethau camddefnyddio sylweddau penodol yn cael eu darparu h.y. cyfnewid nodwyddau neu ddefnyddio cyffuriau dan oruchwyliaeth.
- Hygyrchedd gwasanaethau – a oes rhwystrau i fynediad at wasanaethau yn sgîl ffactorau fel iaith, lleoliad daearyddol, oriau agor, dyluniad adeiladau neu stigma sy'n gysylltiedig â mynychu'r gwasanaeth?
- Y cydbwysedd rhwng gwasanaethau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, ac amrywiaeth a rhychwant y gwahanol ddarparwyr yn y farchnad.
- Yr ystod o wasanaethau sy'n cael eu darparu gan bob darparwr unigol.
- Cost gwasanaethau.
- Y gweithlu – a oes digon o staff ar gael, a'r rheiny'n staff â sgiliau digonol?
- Cynaliadwyedd - pa mor gadarn yw'r farchnad?

Mae'r dulliau o gasglu'r wybodaeth hon yn cynnwys: casglu gwybodaeth trwy holiaduron; adolygu adroddiadau blynyddol darparwyr gwasanaethau; cynnal cyfarfodydd gyda grwpiau o ddarparwyr; a chynnal cyfweliadau gyda rheolwyr gwasanaethau unigol.

***Mapio Trefniadau Contract Presennol***

Bydd angen i chi adolygu'r trefniadau contract presennol hefyd, i'ch helpu i gael darlun o allu gwasanaethau i newid a datblygu.

Wrth ddadansoddi contractau presennol dylid ystyried y canlynol:

- Beth yw'r amrywiaeth a'r mathau o gontractau sydd ar gael?
- Ers pryd mae'r contractau hyn wedi bod ar waith?
- Faint o brynu yn ôl y galw sy'n digwydd?
- Beth sy'n sbarduno contractau – ai gwasanaeth, maint ynteu canlyniadau?
- Beth yw'r cydbwysedd rhwng y sector annibynnol/gwirfoddol a'r sector statudol?

***Dadansoddi Ansawdd Gwasanaethau***

Mae'n bwysig bod comisiynwyr yn dadansoddi ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael ag anghenion manwl defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Mae dadansoddi ansawdd gwasanaethau felly'n elfen allweddol o'r cam hwn yn y cylch comisiynu ac mae'n bwysig sicrhau eich bod yn dadansoddi'n wrthrychol. Nid yw bob amser yn bosibl nac yn syniad da dadansoddi ansawdd pob agwedd ar wasanaethau ar yr un pryd a bydd angen nodi blaenoriaethau, ond dyma rai enghreifftiau:

- Pa mor dderbyniol yw gwasanaethau – a ydynt yn ateb gofynion y cleient/a yw'r cleient yn fodlon ar y gwasanaethau hyn?
- Tegwch - a yw cleientiaid yn cael eu heithrio o wasanaethau'n ddiangen o ganlyniad i bolisi neu ymarfer ar hil, rhyw, oedran neu iaith, er enghraifft? *Gweler yr adran ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn 1.5.3 am fwy o fanylion*

- Effeithiolrwydd - beth yw canlyniadau triniaeth neu ofal?
- Effeithlonrwydd - er enghraifft, a oes rhaid aros yn hir iawn am wasanaethau?
- Cynaliadwyedd - a yw gwasanaethau'n cael eu comisiynu mewn ffordd a fydd yn hyrwyddo datblygiad hirdymor?
- Priodoldeb - i ba raddau mae'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn cyfateb ag anghenion defnyddwyr gwasanaethau?
- Cydgysylltu - a yw gwasanaethau'n darparu pecynnau gofal sydd wedi'u cydgysylltu'n effeithiol?
- A yw gwasanaethau'n rhoi gwerth am arian mewn perthynas â'r wybodaeth feincnodi sydd ar gael?

Gellir defnyddio gwahanol ddulliau i ddadansoddi ansawdd gwasanaethau. Fodd bynnag, cynghorir comisiynwyr i sicrhau bod gwaith parhaus i fonitro cydymffurfiaeth â'r Safonau Craidd Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2010 yn allweddol i'r broses hon. Fel lleiafswm, mae angen i gomisiynwyr fod â dealltwriaeth dda am berfformiad darparwyr a sicrhau bod dulliau'n bodoli i gofnodi unrhyw bryderon.

Mae mwy o wybodaeth am y Safonau Craidd Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yng Nghymru ar gael ar y tab cyhoeddiadau yn http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/substancemisuse/?skip=1&lang=cy.

***Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaethau, Teuluoedd a Gofalwyr***

Mae ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd a gofalwyr yn y broses o adolygu a datblygu gwasanaethau yn un o'r gweithgareddau mwyaf gwerthfawr yn ystod y cam hwn o'r cylch comisiynu, ond gall fod yr anoddaf hefyd. Mae Adran 1.4.3 o'r canllawiau'n nodi egwyddorion Cydgynhyrchu a dylent fod yn rhan annatod o ddatblygu'r strategaeth gomisiynu.

I gael mwy o wybodaeth am gynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn y broses o ddarparu, cynllunio a monitro gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gweler y diweddariad o'r Fframwaith Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth, sydd ar gael yn: http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/substancemisuse/?skip=1&lang=cy.

**RHESTR WIRIO: DADANSODDI'R FARCHNAD**
Cyn i chi symud i elfen nesaf y cam hwn gwnewch yn siŵr eich bod wedi dadansoddi'r farchnad ac wedi:

- Mapio'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau presennol.
- Mapio'r trefniadau contract presennol.
- Dadansoddi ansawdd gwasanaethau.
- Ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd a gofalwyr.

Mae'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) wedi llunio pecyn cymorth i helpu comisiynwyr i ddatblygu Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad sydd o gymorth i sicrhau bod y farchnad yn esblygu i ddiwallu'r angen cyfredol a'r angen a ragwelir yn y dyfodol. Er bod y ffocws penodol ar ofal cymdeithasol i oedolion, mae llawer o'r canllawiau'n berthnasol yn fwy eang hefyd a gellir eu gweld yn: http://ipc.brookes.ac.uk/publications/index.php?absid=658

### 2.1.4 Dadansoddi Adnoddau

Yn ogystal â'r gweithgareddau a ddisgrifiwyd uchod, ar y cam hwn mae angen i gomisiynwyr hefyd ystyried yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd ac a allai fod ar gael i gomisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Bydd gwybodaeth ddefnyddiol yn cynnwys:

- Cyllidebau cyfredol a chyllidebau a allai fod ar gael yn y dyfodol ar gyfer comisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a pha un a yw'r rhain yn debygol o newid neu ddod i ben yn y dyfodol i sicrhau bod cynlluniau wrth gefn priodol wedi'u sefydlu os oes eu hangen.
- Dadansoddiad o'r modd y caiff cyllidebau eu dyrannu.
- Dadansoddiad sy'n dangos i ba raddau y mae cyllidebau wedi eu neilltuo, ac a fydd unrhyw hyblygrwydd yn y dyfodol.
- Dadansoddiad o'r gwariant cyfalaf a refeniw.
- Gwybodaeth am ddosbarthiad adnoddau rhwng gwahanol sectorau, grwpiau defnyddwyr gwasanaethau ac ar draws yr haenau o wasanaethau a ddarperir.
- Dadansoddiad o'r modd y caiff adnoddau eu dyrannu a'r wybodaeth honno wedi'i mapio yn erbyn blaenoriaethau strategol.
- Gwybodaeth am yr adnoddau sydd ar gael mewn mentrau strategol ategol, er enghraifft Cefnogi Pobl, Cymunedau yn Gyntaf, Cronfeydd Diogelwch Cymunedol / Cyfiawnder Troseddol, Strategaeth Ystadau'r GIG, neu gynlluniau buddsoddi sefydliadau cenedlaethol yn y sector gwirfoddol.
- Gwybodaeth am gynaliadwyedd a'r cydbwysedd rhwng arian craidd ac arian grant, gan gynnwys dadansoddiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig â dibynnu ar arian byrdymor.
- Gwybodaeth am gynlluniau arian cyfatebol sydd ar gael a ble y dylid trefnu bod adnoddau ar gael ar gyfer hyn.
- Nodi anghenion cyfalaf ar gyfer datblygu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn y dyfodol.
- Nodi meysydd lle gellir arbed arian neu fuddsoddi yn y dyfodol.


**RHESTR WIRIO: DADANSODDI ADNODDAU**

Cyn symud ymlaen i'r cam nesaf, gwnewch yn siŵr eich bod wedi:

- Adnabod y gyllideb ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn awr ac yn y dyfodol.
- Adnabod y gyllideb gyfan ac wedi dadansoddi'r modd y caiff y gyllideb ei dyrannu.
- Adnabod meysydd posibl ar gyfer arbed arian neu fuddsoddi yn y dyfodol.
- Adnabod yr holl ffynonellau eraill ar gyfer arian/adnoddau.
- Dyrannu adnoddau yn unol â blaenoriaethau strategol.

## 3 Y Cam Cynllunio – Datblygu'r Strategaeth Gomisiynu

### 3.1 Cyflwyniad




Erbyn hyn dylai fod gan y BCA yr holl wybodaeth y mae ei hangen i ddatblygu a dechrau ysgrifennu ei strategaeth gomisiynu gan ddefnyddio'r wybodaeth a gafwyd o ddadansoddiadau lleol o anghenion, y farchnad ac adnoddau. Bydd y BCA mewn sefyllfa i nodi bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd ac i flaenoriaethu o ran y modd y dyrennir adnoddau i lenwi'r bylchau hyn gan roi ystyriaeth i flaenoriaethau strategol ac angen a nodwyd.

### 3.2 Dadansoddi Bylchau

I gomisiynu'n llwyddiannus dylid cynnal dadansoddiad o'r bylchau sy'n cynnwys y gweithgareddau canlynol er mwyn canfod y bylchau rhwng yr anghenion a nodwyd (o'r dadansoddiad o anghenion) a'r ddarpariaeth bresennol (o'r dadansoddiad o'r farchnad). Felly:

- Adolygwch y data a gasglwyd yn y cam dadansoddi anghenion am natur, maint a lleoliad yr angen am wasanaethau.
- Adolygwch y data a gasglwyd yng ngham dadansoddi'r farchnad sy'n dangos i ba raddau y mae gwasanaethau'n diwallu'r anghenion hynny ar hyn o bryd ac yn debygol o'u diwallu yn y dyfodol.
- Adolygwch ddata ansawdd a data ymgynghori am y mathau mwyaf effeithiol ac effeithlon o wasanaethau, a pha un a yw'r mathau hyn o wasanaethau'n cael eu darparu ar hyn o bryd.
- Cwblhewch restr o fylchau a nodwyd ar draws yr haenau o wasanaethau a ddarperir ac ar draws y grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau. Wrth wneud hyn dylai comisiynwyr ystyried:

  • A oes unrhyw fylchau mewn mathau penodol o wasanaethau?
  • A oes diffyg gwasanaeth mewn cymuned arbennig?
  • A yw rhai gwasanaethau'n wan neu o ansawdd gwael?
  • A yw rhai gwasanaethau mewn lleoliadau amhriodol neu anhygyrch?
  • A oes gorddarpariaeth o ran rhai mathau o wasanaethau?
  • A oes gorddarpariaeth o ran gwasanaethau mewn cymunedau penodol?
  • A yw'r cyllid ar gyfer rhai gwasanaethau penodol yn gynaliadwy?

Ar ôl nodi'r bylchau o ran y gwasanaethau a ddarperir bydd angen cynnal asesiad risg o'r effaith y mae'r bylchau hyn mewn gwasanaethau'n ei chael ar gyflawni'r canlyniadau a nodwyd wrth benderfynu ar y nodau strategol trosfwaol.

**RHESTR WIRIO: DADANSODDI BYLCHAU**

Cyn symud ymlaen i'r cam nesaf, gwnewch yn siŵr eich bod wedi:
- Adolygu natur, maint a lleoliad yr angen am wasanaethau.
- Adolygu i ba raddau y mae gwasanaethau'n diwallu anghenion ar hyn o bryd.
- Cwblhau rhestr o fylchau a nodwyd ar draws haenau/ grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau.
- Asesu'r risgiau mewn perthynas â bylchau a nodwyd mewn gwasanaethau.

### 3.3 Blaenoriaethu a Bwriadau Comisiynu Strategol

Ar ôl cynnal asesiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r bylchau o ran y gwasanaethau a ddarperir mae comisiynwyr mewn sefyllfa yn awr i symud ymlaen i flaenoriaethu'r modd y dyrennir yr adnoddau ar draws y grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau a'r haenau o wasanaethau ac adnabod diffygion. Gall hyn olygu:

- Parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau presennol.
- Dadfuddsoddi neu ddatgomisiynu rhai gwasanaethau presennol.
- Comisiynu gwasanaethau newydd.
- Ad-drefnu gwasanaethau presennol.

Wrth gyflawni'r broses hon bydd angen ystyried goblygiadau cyfreithiol trefniadau cytundebol presennol. Wrth benderfynu pa weithgareddau y dylid eu cyflawni bydd angen i gomisiynwyr gael eu harwain gan y nodau strategol a'r canlyniadau a nodwyd ganddynt ar ddechrau'r broses hon.

**RHESTR WIRIO: BLAENORIAETHU A BWRIADAU COMISIYNU STRATEGOL**

Cyn i chi symud i'r cam nesaf, gwnewch yn siŵr eich bod wedi:
- Egluro eich bwriadau comisiynu strategol.
- Blaenoriaethu sut y dylid dyrannu adnoddau yn unol â'r bwriadau comisiynu strategol.
- Ystyried goblygiadau cyfreithiol unrhyw newidiadau i wasanaethau presennol.

### 3.4 Cynhyrchu'r Strategaeth Gomisiynu

Ar y pwynt hwn mae angen i gomisiynwyr yn y BCA:
- Ysgrifennu'r strategaeth.
- Ymgynghori ar y strategaeth gyda'r holl randdeiliaid.

- Cael cytundeb ffurfiol y BCA i’r strategaeth.
- Cael cymeradwyaeth yr awdurdodau cyfrifol trwy eustrwythurau penderfynu.
- Cael cytundeb ffurfiol yr asiantaethau sy’n neilltuo adnoddau i’r strategaeth trwy eu prosesau cyllidebu.
- Hysbysu darparwyr presennol am fwriadau comisiynu yn y dyfodol.
- Cyhoeddi’r ddogfen.

### *3.4.1 Cynnwys y Strategaeth Gomisiynu*

Ar adeg ysgrifennu’r strategaeth y mae’r holl waith hyd yn hyn yn cael ei ddwyn ynghyd ar ffurf dadansoddiad cryno. Dylai dogfen y strategaeth gynnwys yr elfennau canlynol o leiaf:

- Cyflwyniad
- Canllawiau ac Ymchwil Cenedlaethol a Lleol
- Asesiad o Anghenion
- Dadansoddiad o’r Farchnad
- Dadansoddiad o’r Bylchau a Dyluniad Darpariaeth yn y Dyfodol
- Y Sefyllfa Ariannol
- Datblygu gwasanaethau a pha ganlyniadau a ddisgwylir gan y gwasanaethau
- Trefniadau Monitro

Gweler Atodiad 5 am fwy o fanylion.


**RHESTR WIRIO: CYNHYRCHU’R STRATEGAETH GOMISIYNU**

Cyn i chi symud ymlaen i’r cam nesaf gwnewch yn siŵr eich bod wedi:

- Ysgrifennu dogfen eich strategaeth gomisiynu.
- Ymgynghori ar y strategaeth, ac wedi cael cytundeb ffurfiol yr holl asiantaethau comisiynu sy’n rhan o’r BCA.
- Cyhoeddi’r ddogfen.

## 4. Y Cam Gweithredu – Sicrhau Gwasanaethau

### 4.1 Cyflwyniad




Mae cam nesaf y cylch comisiynu'n ymdrin â thasgau beunyddiol sicrhau gwasanaethau, yn enwedig datblygu'r ystod o wasanaethau y nodwyd fod eu hangen yn y strategaeth. Rheoli'r farchnad yw'r elfen allweddol yn y cylch comisiynu, a thrwy wneud hyn gellir trefnu a dylanwadu ar wasanaethau i ddiwallu anghenion pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn y modd gorau. Mae'r cam hwn yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Rheoli cydbwysedd gwasanaethau.
- Gwneud trefniadau ar gyfer nodi gwasanaethau penodol.
- Gwneud trefniadau ar gyfer dethol darparwyr gwasanaethau.
- Gwneud trefniadau ar gyfer contractio.
- Sicrhau ansawdd.
- Nodi darparwyr newydd posibl - pa gyflenwyr gwasanaethau eraill posibl sydd i'w cael, a pha fath o wasanaethau allent eu cynnig?
- Ymchwilio i wasanaethau camddefnyddio sylweddau mewn rhannau eraill o'r DU, a chyfleoedd i gynnal a/neu ddatblygu gwasanaethau presennol.

### 4.2 Rheoli Cydbwysedd Gwasanaethau

Mae'n bwysig i gomisiynwyr ddylanwadu ar y farchnad o ddydd i ddydd mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion eu grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau ac yn helpu i gyrraedd nodau'r strategaeth gomisiynu. Un ffordd o egluro sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni yw cwblhau datganiad ar sail y strategaeth sy'n nodi sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r meysydd canlynol:

- *Y cymysgedd o ddarparwyr*: sicrhau bod cymysgedd o ddarparwyr gwasanaethau i sicrhau bod yr ystod o anghenion a nodwyd yn yr asesiad o anghenion yn cael eu diwallu'n ddigonol a bod gwasanaethau'n hyfyw a chynaliadwy yn yr hirdymor.
- *Faint o gystadleuaeth sydd*: cystadleuaeth rhwng darparwyr gwasanaethau a allai helpu i sicrhau gwerth am arian.
- *Faint o ddewis sydd*: yn ddelfrydol, dylai defnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr gael dewis o wasanaethau er mwyn dethol y gwasanaeth sy'n diwallu eu hanghenion orau.

- *Cymhellion i ddarparwyr*: dylai comisiynwyr geisio creu cymhellion i ddarparwyr newydd ymuno â'r farchnad neu i ddarparwyr presennol gynnig gwasanaethau newydd.
- *Cydgomisiynu* ar draws ardal BCA a / neu ardal mwy nag un BCA

Yna, bydd angen i gomisiynwyr gyflawni gweithgareddau i weithredu unrhyw newidiadau y mae eu hangen yng nghydbwysedd y gwasanaethau. Rhai agweddau y bydd angen i chi eu hystyried yw:

- *Ad-drefnu gwasanaethau presennol* – mae angen archwilio i ba raddau y mae gan ddarparwyr presennol y gallu neu'r awydd i ddiwygio eu gwasanaethau, ac i ba raddau y gellid gweithredu unrhyw newidiadau gofynnol yn llwyddiannus..
- *Buddsoddi rhagor o arian mewn gwasanaethau presennol* – yn aml, ystyrir mai dyma'r dewis mwyaf syml, ond mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i sicrhau bod buddsoddiad pellach yn siŵr o arwain at fanteision ychwanegol.
- *Datgomisiynu gwasanaethau* – er bod hyn yn aml yn anodd a dadleuol, mae datgomisiynu yn ddewis hanfodol i gomisiynwyr ac arnynt angen adnoddau i ddatblygu gwasanaethau newydd. Weithiau, bydd hi'n briodol rhoi terfyn ar gontractau neu gytundebau lefel gwasanaeth presennol, yn arbennig pan nad yw gwasanaeth presennol yn diwallu anghenion y boblogaeth, a hithau'n ymddangos yn annhebygol y bydd yn gallu gwneud hynny. Fodd bynnag, dylid rhoi ystyriaeth ofalus i: adnabod y meysydd hynny y mae angen eu datgomisiynu fel rhan o'r strategaeth gomisiynu gyffredinol; cytuno ar amcanion datgomisiynu gyda'r holl benderfynwyr perthnasol o'r asiantaethau comisiynu yn y BCA; a datblygu strategaethau ymadael sy'n ceisio lleihau'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau presennol (gweler adran 1.4.5 i gael mwy o ganllawiau ar ddatgomisiynu)
- *Comisiynu gwasanaethau newydd* – er enghraifft, nodi darparwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau eraill nad ydynt eisoes yn gweithio yn yr ardal, a'r cyfleoedd posibl iddynt wneud hynny neu i ddarparwyr lleol ddatblygu gwasanaethau newydd.

**RHESTR WIRIO: RHEOLI CYDBWYSEDD GWASANAETHAU**

Cyn symud ymlaen i'r elfen nesaf gwnewch yn siŵr eich bod wedi:

- Cwblhau datganiad ar sail y strategaeth gomisiynu sy'n nodi'r cydbwysedd yr ydych yn ei geisio rhwng gwasanaethau.
- Cynllunio'r gweithgareddau sy'n ofynnol i sicrhau newidiadau yng nghydbwysedd y gwasanaethau.

Unwaith y bydd yr uchod wedi'i gwblhau mae'r rhan nesaf o'r broses yn ymdrin â'r prosesau sy'n ofynnol i sicrhau bod cydbwysedd y gwasanaethau'n cael ei reoli yn deg, yn gyfreithlon, yn effeithiol ac yn effeithlon.

### 4.3 Trefniadau ar gyfer Nodi Gwasanaethau Penodol

Mae 'canlyniadau' comisiynu'n galw am fanylebau gwahanol iawn gan eich bod yn mesur canlyniad y gwaith yn hytrach na'r gweithgaredd ei hun. Trwy ganolbwyntio ar y 'nod' yn hytrach na'r 'dull', bydd yn helpu darparwyr i ganolbwyntio ar eu heffaith ac mae'n rhoi cyfle i ddiffinio llwyddiant yn fwy eang. Mae hyn yn newid mewn diwylliant sy'n dwyn heriau ond a ddylai wella ansawdd gwasanaethau trwy ganolbwyntio ar y gwahaniaeth y mae gwasanaethau'n ei wneud i'w defnyddwyr.

Rhaid i'r cynllun comisiynu a ddatblygir nodi'r canlyniadau y ceisir eu cyflawni a pha wasanaethau / prosiectau y tybir eu bod yn y sefyllfa orau i ddiwallu'r anghenion hyn. Dylai comisiynwyr ddatblygu neu adolygu manyleb gwasanaeth ar gyfer pob un o'r gwasanaethau a nodir yn y strategaeth gomisiynu gan ystyried y canlyniadau yr ydych yn dymuno eu cael o'r gwasanaeth a ddarperir. Bydd angen i bob un o'r manylebau hyn y cytunir arnynt ar gyfer gwasanaethau:

- Adlewyrchu anghenion a nodwyd.
- Ystyried materion iaith, hil, oedran a rhyw.
- Cyflawni amcanion y strategaeth gomisiynu.
- Adlewyrchu arfer gorau a dderbynnir yn genedlaethol.
- Nodi egwyddorion a gwerthoedd penodol y cytunwyd arnynt yn lleol.
- Nodi'r canlyniadau yr ydych yn dymuno eu cyflawni.
- Nodi safonau/ cenedlaethol penodol/ targedau cysylltiedig.
- Nodi disgwyliadau mewn perthynas â lefelau staffio, hyfforddiant, cymwysterau a phrofiad.
- Cydymffurfio â safonau gwasanaeth a chanllawiau lleol neu genedlaethol.
- Cynnwys amrywiaeth safonedig o fesurau allbynnau a chanlyniadau.

Mae angen i'r holl drefniadau arfaethedig ar gyfer gwasanaethau fod yn glir a chael eu cytuno gan holl aelodau'r BCA. Mae'r canllawiau i Fyrddau Cynllunio Ardal, a gyhoeddwyd yn 2012, yn datgan yn benodol bod angen i'w haelodaeth sicrhau bod gan yr holl wasanaethau weithdrefnau a phrosesau priodol ar gyfer llywodraethu, rheoli risgiau a rheoli contractau. Wrth wneud hynny mae angen i'r BCA sicrhau bod pwyslais hefyd ar yr agwedd ar ei gylch gwaith sy'n ymwneud â llywodraethu clinigol ac mae angen i aelodaeth pob BCA sicrhau bod ganddi fynediad at yr arbenigedd hwn. Dylai'r rôl hon fod yn rhan annatod hefyd o'r trefniadau comisiynu i sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynir yn effeithiol yn glinigol. Dylai gwasanaethau hefyd fod yn gyson â chanllawiau NICE (Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal) a Fframweithiau Triniaethau Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru.

Unwaith y byddant wedi cael eu cytuno mae angen i gyfnod pontio priodol gael ei gynnwys hefyd er mwyn sicrhau bod unrhyw effaith ar wasanaethau mor fach â phosibl.

**RHESTR WIRIO: TREFNIADAU AR GYFER NODI GWASANAETHAU PENODOL**

Cyn symud ymlaen i'r cam nesaf gwnewch yn siŵr eich bod wedi:

- Sefydlu trefniadau eglur ar gyfer nodi gwasanaethau penodol ac wedi cytuno arnynt gyda holl aelodau'r BCA.
- Datblygu manylebau ar gyfer pob gwasanaeth yn y strategaeth gomisiynu.
- Adolygu'r holl fanylebau gwasanaeth presennol a'u diwygio lle y bo angen.

## 4.4 Trefniadau ar gyfer dethol darparwyr gwasanaethau

Mae'r elfen hon yn ymwneud â'r prosesau penderfynu a fydd yn sicrhau bod y darparwyr mwyaf priodol yn cael eu dethol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da sy'n rhoi'r gwerth gorau am arian. Er mwyn gwneud hyn mae angen i bartneriaid y BCA gytuno:

- Pa asiantaeth sy'n mynd i arwain y broses dendro?
- Sut y bydd tendrau yn cael eu gwerthuso mewn perthynas â meini prawf penodedig.
- Sut y bydd asesiadau risg o hyfywedd sefydliadau darparu yn cael eu cynnal.
- Pa drefniadau y mae angen eu gwneud i gynnwys yr holl asiantaethau comisiynu yn y broses ddethol?

**RHESTR WIRIO: TREFNIADAU AR GYFER DETHOL DARPARWYR GWASANAETHAU**

Cyn symud ymlaen i'r elfen nesaf gwnewch yn siŵr eich bod wedi:

- Cytuno ar asiantaeth i arwain y broses dendro.
- Cytuno ar feini prawf gwerthuso ar gyfer tendrau.
- Cytuno ar drefniadau i asesu risg darparwyr.
- Cytuno ar drefniadau ar gyfer y broses ddethol.

## 4.5 Trefniadau ar gyfer Contractio

Bydd angen i'r BCA gytuno ar drefniadau ffurfiol ar gyfer contractio. Bydd angen iddynt fod yn gyfreithlon ac yn dderbyniol i'r holl aelodau ac wedi'u dylunio mewn modd realistig i gyfateb i faint a natur y gwasanaethau dan sylw. Mae angen i'r BCAau fod yn ymwybodol y gallai fod yn broses faith, gan gymryd rhwng chwech a naw mis. Rhai o'r materion y bydd angen i asiantaethau'r BCA gytuno arnynt fydd:

- Pa asiantaeth fydd yr asiantaeth arweiniol ar gyfer contractio gwasanaethau?

- A oes angen rheolwr contract ar gyfer contractau mwy, pwy ddylai hwn fod ac a oes angen dyrannu adnoddau ar gyfer hyn.
- Y mathau o gontractau i'w defnyddio e.e. bloc, yn ôl y galw, cost a/neu faint.
- Y fformat ar gyfer cyflawni contractau h.y. consortia neu drefniadau darparwyr arweiniol / is-gontractio
- Y fformat ar gyfer amodau/cymalau'r contract, sy'n cwmpasu'r holl bosibiliadau gan gynnwys er enghraifft: cyfnod ac amserlen y contract; trefniadau cofnodi ac adolygu; disgwyliadau penodol ar gyfer y darparwr, megis llywodraethu clinigol, iechyd a diogelwch, cyfrinachedd, yswiriant ac ati; dewisiadau ar gyfer amrywio/ymestyn y contract; datrys anghydfod; terfynu neu atal y contract.

**RHESTR WIRIO: TREFNIADAU AR GYFER CONTRACTIO**
Cyn symud ymlaen i'r cam nesaf gwnewch yn siŵr eich bod wedi:
- Cytuno ar asiantaeth arweiniol ar gyfer contractio gwasanaethau.
- Cytuno ar y mathau o gontractau a fformat y contractau y bwriedir eu defnyddio.
- Cytuno pwy ddylai fod yn rheolwr ar y contract (os oes angen un).

## 4.6 Sicrhau Ansawdd

Yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer llunio a rheoli contractau, mae angen i chi hefyd ddatblygu meini prawf sicrhau ansawdd y gellir eu cynnwys mewn contractau. Mae angen i'r meini prawf hyn ymlynu wrth y Safonau Craidd Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2010. Yn arbennig, dylai BCAau sicrhau bod ganddynt ddulliau i adnabod ac yna rheoli unrhyw achosion o dwyll neu gamreoli arian a amheuir.

**RHESTR WIRIO: SICRHAU ANSAWDD**
Cyn symud ymlaen i'r cam nesaf gwnewch yn siŵr eich bod wedi:
- Datblygu a chytuno ar feini prawf sicrhau ansawdd priodol yn unol â'r Safonau Craidd cyhoeddedig.
- Cynnwys y meini prawf uchod yn briodol mewn contractau.
- Sefydlu rheolaethau ariannol priodol.

### *4.6.1 Cofrestru Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).*

Er mwyn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 mae'n debygol y bydd yn ofynnol i rai gwasanaethau camddefnyddio sylweddau gofrestru gydag AGIC. Mae'n debygol y bydd yn ofynnol i wasanaeth gofrestru dan yr amgylchiadau canlynol:
- Os yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan ymarferwyr meddygol (h.y. Meddygon Teulu neu Feddygon Ymgynghorol) neu os ydynt hwy'n trin cleifion.

- Os yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn yr un adeilad yn rheolaidd.

Fodd bynnag mae'r penderfyniad ynghylch cofrestru'n cael ei wneud fesul achos unigol a chynghorir bod ffurflen ymholi ynghylch cofrestru'n cael ei chwblhau fel bod AGIC yn gallu cynghori a oes angen cofrestriad ar unrhyw wasanaeth penodol.

Mae'r ffurflen ymholi ynghylch cofrestru ar gael o: hiwregistration@wales.gsi.gov.uk neu fe allwch ffonio 0300 062 8163 os oes gennych unrhyw ymholiadau ychwanegol.

Os oes angen cofrestru'r gwasanaeth, bydd AGIC yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliad ddangos tystiolaeth ei fod yn bodloni 'Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011' a'r 'Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.'

Mae copi o'r rheoliadau ar gael yn:
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/734/contents/made

Mae copi o'r safonau ar gael yn http://www.hiw.org.uk/opendoc/234735

### 4.7 Adnabod Darparwyr Newydd Posibl

Unwaith y mae'r uchod wedi cael ei wneud mae angen i'r BCA ystyried pa gyflenwyr gwasanaethau eraill posibl a all fod ar gael a pha fathau o wasanaethau y gallent eu cynnig.


**RHESTR WIRIO: ADNABOD DARPARWYR NEWYDD POSIBL**
Cyn symud ymlaen i'r cam nesaf gwnewch yn siŵr eich bod wedi:
- Adnabod unrhyw gyflenwyr eraill posibl.
- Cadarnhau pa fath o wasanaethau y gallant eu cynnig.

### 4.8 Ymchwilio i Wasanaethau Camddefnyddio Sylweddau

Yn olaf mae angen i'r BCA ymchwilio i'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau sydd ar gael mewn rhannau eraill o'r DU, ac ystyried yr holl gyfleoedd i gynnal a datblygu gwasanaethau presennol.

**RHESTR WIRIO: YMCHWILIO I WASANAETHAU CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU**
Cyn symud ymlaen i'r cam nesaf gwnewch yn siŵr eich bod wedi:
- Llunio dogfennaeth i ddangos pa wasanaethau eraill sydd ar gael mewn rhannau eraill o'r DU.
- Ystyried yr holl gyfleoedd i gynnal a/neu ddatblygu gwasanaethau presennol.

## 5.0 <u>Y Cam Adolygu – Monitro, Gwerthuso ac Adolygu'r Strategaeth</u>




### 5.1 Cyflwyniad

Mae cam olaf y cylch comisiynu'n ymwneud â monitro, gwerthuso ac adolygu'r strategaeth gomisiynu a'i heffaith, i benderfynu a yw amcanion strategol y strategaeth yn cael eu cyflawni, pa mor effeithiol yw'r gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu ac effaith y strategaeth gomisiynu o ran mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau a'r canlyniadau diffiniedig.

### 5.2 Monitro

Dylai gweithgareddau monitro alluogi'r BCA i ofyn cwestiynau yn rheolaidd am y gwasanaethau y mae'n eu comisiynu, fel:

- Sut mae'r gwasanaethau'n perfformio mewn perthynas â'r fanyleb y cytunwyd arni? (gweler adran 4.3)
- A yw'r gwasanaethau'n diwallu'r angen a ganfuwyd mewn asesiad?
- A yw'r gwasanaethau'n cael eu darparu i'r safon sy'n ofynnol?
- Beth yw cost y gwasanaethau ac a ydynt yn rhoi gwerth am arian?
- A oes gwasanaethau priodol yn cael eu comisiynu?
- I ba raddau y mae gwasanaethau'n cyflawni amcanion / canlyniadau comisiynu?
- Beth yw barn darparwyr gwasanaethau, defnyddwyr gwasanaethau,
- rhanddeiliaid a'r cyhoedd am effeithiolrwydd y gwasanaethau?

Ac am effeithiolrwydd y strategaeth ei hun, fel:

- A yw'r bylchau mewn anghenion o ran gwasanaethau'n cael eu llenwi?
- A oes angen newid y blaenoriaethau comisiynu?
- A oes angen comisiynu gwasanaethau'n wahanol?
- A oes angen adolygu ac ad-drefnu gwasanaethau presennol?

Er mwyn i'r BCAau fod mewn sefyllfa i gynnal adolygiadau rheolaidd o'r strategaeth gomisiynu bydd angen sefydlu trefniadau i fonitro gweithgarwch, perfformiad ac effaith gwasanaethau gan ddefnyddio'r wybodaeth o Gronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau a gwybodaeth gyfatebol arall am gyllid, adroddiadau ar weithgarwch a chanlyniadau i ddefnyddwyr.

Bydd hi'n bwysig pennu'r paramedrau ar gyfer adrodd o ran amlder a'r math o adroddiadau. At ddibenion adolygu strategaethau comisiynu, mae'n debyg mai adroddiadau chwarterol fel sail i adolygiadau yw'r dull mwyaf pragmatig.

Hefyd mae'r wybodaeth a gasglwyd fel rhan o'r cam asesu anghenion wrth lunio'r strategaeth, a nodir yn Atodiad 4, yn darparu ffynonellau ychwanegol ar gyfer gwybodaeth a gesglir yn rheolaidd ac y gellir ei defnyddio i fonitro cynnydd hefyd.

| |
|---|
| **RHESTR WIRIO: MONITRO**<br>Cyn symud ymlaen i'r cam nesaf gwnewch yn siŵr eich bod wedi sefydlu:<br>- Dulliau ar gyfer monitro a dadansoddi data.<br>- Asesiadau o berfformiad mewn perthynas â manylebau gwasanaeth.<br>- Trefniadau ar gyfer ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch effeithiolrwydd y gwasanaeth.<br>- Dull i adnabod a chytuno ar unrhyw newidiadau y mae eu hangen i'r strategaeth gomisiynu. |

## 5.3 Gwerthuso ac Adolygu

I ategu'r trefniadau monitro parhaus hyn, bydd hi'n bwysig hefyd bod BCAau yn sefydlu dulliau ffurfiol o werthuso'r wybodaeth a gasglwyd, i oleuo'r adolygiad cyfnodol o wasanaethau a gomisiynwyd a pherfformiad y strategaeth gyfan. Pwyntiau posibl i'r BCA eu hystyried fyddai:

- Sefydlu grŵp cyflawni'r strategaeth a hwnnw'n cynnwys, er enghraifft, awdurdodau cyfrifol yn y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (e.e. BILl, ALl, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf), darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau.
- Cytuno ar gylch gorchwyl i'r grŵp cyflawni ei ddefnyddio i ystyried gweithgarwch, perfformiad a chanlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau a'i oblygiadau.
- Cytuno ar adegau rheolaidd yn y flwyddyn i gasglu a dadansoddi data.
- Cytuno sut y bydd y BCA yn mynd i'r afael â phroblemau o ran perfformiad a nodwyd gan yr wybodaeth fonitro.
- Cytuno sut y bydd y BCA yn ystyried argymhellion gan y grŵp am newidiadau i flaenoriaethau comisiynu ac adolygiad dilynol o'r modd y dyrennir adnoddau ac yn mabwysiadu'r argymhellion hyn.
- Cytuno ar ddull i sicrhau bod unrhyw gwynion, canmoliaeth ac awgrymiadau mewn perthynas â darparu gwasanaethau'n cael eu cynnwys yn y broses o adolygu ansawdd gwasanaethau.
- Ystyried sut y mae polisi a deddfwriaeth ar lefel genedlaethol yn effeithio ar flaenoriaethau comisiynu

**RHESTR WIRIO: GWERTHUSO AC ADOLYGU**
Gwnewch yn siŵr eich bod wedi:

- Rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod yr wybodaeth a gesglir yn cael ei gwerthuso a'i hadolygu'n rheolaidd.
- Rhoi trefniadau ar waith a fydd yn galluogi'r BCA i ymateb i flaenoriaethau comisiynu newidiol, sy'n codi o'r gweithgarwch gwerthuso ac adolygu.

Ceir amlinelliad o'r holl gamau ac elfennau yn y cylch comisiynu yn Atodiad 5.

## ATODIAD 1 – Templedi a Rhestrau Gwirio

### 1a Templed ar gyfer Pennu Cwmpas Cynllun Comisiynu

**Diben**

Cyn bod y cynllun comisiynu'n cael ei ddatblygu, mae'n bwysig sicrhau eich bod yn mynd ati'n ofalus i bennu cwmpas gweithgareddau comisiynu, eu cynllunio a darparu adnoddau ar eu cyfer er mwyn sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r materion cywir, yn cynnwys y bobl gywir, ac yn cynnwys y gweithgareddau cywir i gwblhau'r gwaith. Mae'r templed hwn wedi'i fwriadu i'ch helpu i fynd i'r afael â'r materion allweddol cyn i chi ddechrau. Mewn rhai achosion bydd yn rhoi cofnod byr o benderfyniadau; mewn achosion eraill bydd yn ysgogi gwaith pellach cyn y gellir gwneud penderfyniadau allweddol.

**Sut i gwblhau'r templed hwn**

Mae rhai o'r cwestiynau yn y templed isod yn syml; mae eraill yn fwy cymhleth a bydd angen iddynt gael eu cytuno rhwng partneriaid y BCA yng ngoleuni'r gofynion penodol ar gyfer y cynllun comisiynu sy'n cael ei ddatblygu.

Dylech wastad sicrhau bod cwmpas arfaethedig y cynllun comisiynu'n cael ei gytuno gyda phenderfynwyr allweddol.

**Camau nesaf**

Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r templed hwn a bod cwmpas y cynllun comisiynu wedi cael ei gytuno gyda phartneriaid allweddol, dylech fod yn barod i symud ymlaen at gamau dadansoddi a chynllunio'r broses (Atodiad 1b), ac i ysgrifennu'r cynllun comisiynu ei hun (Atodiad 1c).

**Templed ar gyfer Pennu Cwmpas Cynllun Comisiynu**

| Cwestiwn | Penderfyniad, nodiadau, cwestiynau ychwanegol |
|---|---|
| 1. Cynllun comisiynu pwy ydyw e.e. y BCA? | |
| 2. Pa fath o ddogfen fydd yn cael ei chynhyrchu e.e. datganiad byr o fwriad strategol ynteu dadansoddiad a chynllun manwl? | |
| 3. Pwy yw'r gynulleidfa/ cynulleidfaoedd ar gyfer y cynllun ysgrifenedig e.e. aelodau etholedig, swyddogion awdurdod lleol, defnyddwyr gwasanaethau ac a yw wedi'i ysgrifennu mewn fformat hygyrch? | |
| 4. Pwy yw'r dinasyddion y bwriedir i'r cynllun ddiwallu eu hanghenion e.e. oedolion mewn ardal benodol, grŵp oedran penodol? | |
| 5. Pa gyfnod fydd y cynllun yn ymdrin ag ef – dylai hwn fod rhwng 3 a 5 mlynedd fel arfer | |
| 6. Pa ofynion cenedlaethol a pha ymrwymiadau rhanbarthol a lleol fydd y cynllun comisiynu'n mynd i'r afael â hwy e.e. cydymffurfio â deddfwriaeth, polisi a chynlluniau busnes lleol? | |
| 7. Dylai cynlluniau comisiynu gynnwys yr holl wasanaethau gofal cymdeithasol a ddarperir yn uniongyrchol ac sy'n cael eu contractio. Pa wasanaethau eraill y mae angen eu hystyried yn y cynllun e.e. iechyd, addysg, tai, cyfiawnder ieuenctid? | |
| 8. Pryd y mae angen cwblhau'r cynllun? | |
| 9. Pryd y mae angen gweithredu'r cynllun? | |
| 10. Sut fydd dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu'r cynllun? | |
| 11. Sut fydd rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys y trydydd sector a'r sector preifat, yn gallu cyfrannu at y cynllun? | |

| Cwestiwn | Penderfyniad, nodiadau, cwestiynau ychwanegol |
| --- | --- |
| 12. Pwy fydd yn gwneud y gwaith i ddatblygu’r cynllun, faint o amser fydd ei angen arnynt e.e. pwy fydd yn arwain y gwaith, pwy arall fydd yn rhan o’r gwaith, pwy fydd yn darparu data? | |

**ATODIAD 1b**

## Rhestr wirio ar gyfer gweithgareddau dadansoddi

| **Deddfwriaeth, polisi, strategaeth a chanllawiau**<br><br>***Canlyniad***: Mae rhanddeiliaid yn glir ynghylch pa bolisïau, canllawiau, cynlluniau strategol ac ymchwil ac arfer gorau ddylai danategu'r gwaith. | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn** | **Penderfyniad, nodiadau, cwestiynau ychwanegol** | **Ffynonellau gwybodaeth posibl** |
| 1. A yw cwmpas y cynllun comisiynu wedi cael ei bennu a'i gytuno gyda phartneriaid allweddol? | | • Templed ar gyfer Pennu Cwmpas Strategaeth Gomisiynu |
| 2. Pa ddeddfwriaeth, polisi a chanllawiau allweddol ar lefel genedlaethol fydd yn tanategu'r gweithgarwch comisiynu ar gyfer y grŵp o ddinasyddion sydd dan sylw? | | • Atodiadau'r Canllawiau ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau<br>• Deddf yr Iaith Gymraeg<br>• Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi |
| 3. Pa strategaethau allweddol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol fydd yn tanategu'r gweithgarwch comisiynu ar gyfer y grŵp o ddinasyddion sydd dan sylw? | | • Atodiadau'r Canllawiau ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau |
| 4. Pa ymchwil a/neu arfer gorau ar gyfer y grŵp o ddinasyddion dan sylw fydd yn helpu i oleuo'r gweithgarwch comisiynu? | | • Fframweithiau triniaethau camddefnyddio sylweddau |
| 5. A yw'r polisïau a.y.b. allweddol (fel uchod) wedi cael eu dwyn ynghyd a'u dadansoddi?<br>A ydynt wedi cael eu rhannu gyda'r holl randdeiliaid? | | • Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed 2008 – 2018<br>• Fframwaith Adferiad |

| **Deddfwriaeth, polisi, strategaeth a chanllawiau**<br><br>***Canlyniad***: Mae rhanddeiliaid yn glir ynghylch pa bolisïau, canllawiau, cynlluniau strategol ac ymchwil ac arfer gorau ddylai danategu'r gwaith. | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn** | **Penderfyniad, nodiadau, cwestiynau ychwanegol** | **Ffynonellau gwybodaeth posibl** |
| | | • Fframwaith Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth |
| 6. Pa weledigaeth a gwerthoedd fydd yn arwain gweithgareddau comisiynu? A ydynt wedi cael eu rhannu gyda rhanddeiliaid allweddol? | | • Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed 2008 – 2018<br>• Fframwaith Adferiad<br>• Fframwaith Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth<br>• Y Compendiwm Iechyd a Lles<br>• Gwefan 'Rhoi Gofal Iechyd Darbodus ar Waith'<br>• Fframwaith gwasanaeth i ddiwallu anghenion pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a phroblemau oherwydd camddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd<br>• Gwella mynediad i wasanaethau i bobl hŷn<br>• Gofal Integredig i |

| **Deddfwriaeth, polisi, strategaeth a chanllawiau** | | |
|---|---|---|
| ***Canlyniad***: Mae rhanddeiliaid yn glir ynghylch pa bolisïau, canllawiau, cynlluniau strategol ac ymchwil ac arfer gorau ddylai danategu'r gwaith. | | |
| **Cwestiwn** | **Penderfyniad, nodiadau, cwestiynau ychwanegol** | **Ffynonellau gwybodaeth posibl** |
| | | Bobl Ifanc hyd at 18 oed<br>• Crynodeb o Ganllawiau Arfer Da ar Ofal Integredig i Blant a Phobl Ifanc hyd at 18 oed sy'n Camddefnyddio Sylweddau |

| **Dadansoddi Anghenion y Boblogaeth** | | |
|---|---|---|
| ***Canlyniad:*** Mae bwriadau comisiynu'n seiliedig ar ddealltwriaeth am anghenion y boblogaeth leol | | |
| **Cwestiwn** | **Penderfyniad, nodiadau, cwestiynau ychwanegol** | **Ffynonellau gwybodaeth posibl** |
| 7. A oes dadansoddiad o wybodaeth ddemograffig wedi cael ei gynnal i nodi pa mor gyffredin yw problemau, nifer yr achosion a ffactorau risg yn y boblogaeth? Beth yw ei ganfyddiadau allweddol ar gyfer y grŵp o bobl dan sylw? | | • Templed ar gyfer dadansoddi anghenion y boblogaeth<br>• System Rhagfynegi Anghenion Gofal Daffodil<br>• Y Swyddfa Ystadegau Gwladol<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>• Adroddiadau Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Gamddefnyddio |

| Dadansoddi Anghenion y Boblogaeth<br><br>***Canlyniad:*** Mae bwriadau comisiynu'n seiliedig ar ddealltwriaeth am anghenion y boblogaeth leol | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn** | **Penderfyniad, nodiadau, cwestiynau ychwanegol** | **Ffynonellau gwybodaeth posibl** |
| | | Sylweddau<br>• Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru – derbyniadau i'r ysbyty<br>• Cyfraddau'r achosion o Feirysau a Gludir yn y Gwaed<br>• Y Gronfa Ddata Lleihau Niwed |
| 8. Beth yw'r darlun cyffredinol o'r anghenion a ganfuwyd mewn asesiad a'r canlyniadau gofynnol i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr? | | • Canfyddiadau o ymchwil mewn perthynas â defnyddwyr gwasanaethau / gofalwyr<br>• Strategaeth Leol ar gyfer Gofalwyr<br>• Ymgynghoriad â darparwyr gwasanaethau.<br>• Cynllun Gofal ar sail Asesiad Unedig |
| 9. A yw canfyddiadau'r asesiad uchod o anghenion wedi cael eu rhannu gyda rhanddeiliaid allweddol? | | |

| **Dadansoddi Anghenion y Boblogaeth**<br><br>***Canlyniad:*** Mae bwriadau comisiynu'n seiliedig ar ddealltwriaeth am anghenion y boblogaeth leol | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn** | **Penderfyniad, nodiadau, cwestiynau ychwanegol** | **Ffynonellau gwybodaeth posibl** |
| **Dadansoddi Gwasanaethau**<br><br>***Canlyniad:*** Mae bwriadau comisiynu'n seiliedig ar ddarlun cyffredinol o ystod ac ansawdd y gwasanaethau i ddiwallu anghenion y boblogaeth, yn awr ac yn y dyfodol. | | |
| **Cwestiwn** | **Penderfyniad, nodiadau, cwestiynau ychwanegol** | **Ffynonellau gwybodaeth posibl** |
| 10. A oes ymarfer mapio wedi cael ei gynnal i adnabod yr ystod o wasanaethau sydd ar gael i ddiwallu anghenion yn awr ac yn y dyfodol? | | • Templed dadansoddi sector darparwyr a gwasanaethau (heb ei ddatblygu eto) |
| 11. A oes ymarfer adolygu wedi cael ei gwblhau i adnabod ansawdd a chanlyniadau'r gwasanaethau sydd ar gael i ddiwallu anghenion yn awr ac yn y dyfodol? | | • Canlyniadau arolygiadau<br>• Cwynion a chanmoliaeth<br>• Safonau Craidd<br>• Canfyddiadau o ymchwil mewn perthynas â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr<br>• Canfyddiadau o weithgarwch monitro contractau<br>• Log cwynion/ canmoliaeth? |
| 12. Pa ddatblygiadau o ran gwasanaethau sydd yn yr arfaeth? A yw ymrwymiadau presennol i newid gwasanaethau wedi cael eu hadnabod? | | • Cynlluniau busnes darparwyr<br>• Trafodaeth gyda darparwyr |

| Dadansoddi Anghenion y Boblogaeth<br><br>***Canlyniad:*** Mae bwriadau comisiynu'n seiliedig ar ddealltwriaeth am anghenion y boblogaeth leol | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn** | **Penderfyniad, nodiadau, cwestiynau ychwanegol** | **Ffynonellau gwybodaeth posibl** |
| **Dadansoddi Adnoddau**<br><br>***Canlyniad:*** Mae bwriadau comisiynu'n seiliedig ar wybodaeth am yr adnoddau sydd ar gael. | | |
| **Cwestiwn** | **Penderfyniad, nodiadau, cwestiynau ychwanegol** | **Ffynonellau gwybodaeth posibl** |
| 13. A yw'r adnoddau presennol a phosibl wedi cael eu hadnabod a'u dadansoddi? Pa adnoddau neu adnoddau posibl sydd ar gael i ariannu gwasanaethau yn y dyfodol? | | • Cyllidebau asiantaethau partner<br>• Gwariant ar gontractau/ Cytundebau Lefel Gwasanaeth presennol trwy grant y Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau<br>• Cronfa Gymdeithasol Ewrop<br>• Ffynonellau posibl eraill, e.e. Llywodraeth y DU, Y Gronfa Loteri Fawr, Cronfa Libor |
| **Dadansoddi gwybodaeth gomisiynu**<br><br>***Canlyniad:*** Mae gwybodaeth gomisiynu wedi cael ei dwyn ynghyd a'i dadansoddi i oleuo bwriadau comisiynu a'i gwneud yn bosibl ysgrifennu'r cynllun comisiynu | | |
| **Cwestiwn** | **Penderfyniad, nodiadau, cwestiynau ychwanegol** | **Ffynonellau gwybodaeth posibl** |

| Dadansoddi Anghenion y Boblogaeth<br><br>***Canlyniad:*** Mae bwriadau comisiynu'n seiliedig ar ddealltwriaeth am anghenion y boblogaeth leol | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn** | **Penderfyniad, nodiadau, cwestiynau ychwanegol** | **Ffynonellau gwybodaeth posibl** |
| 14. A yw nodweddion allweddol y dadansoddiadau uchod wedi cael eu dwyn ynghyd a'u rhannu â rhanddeiliaid allweddol, er mwyn sicrhau eu hymrwymiad cynnar i fwriadau comisiynu? | | Dadansoddiad o:<br>• Ddeddfwriaeth, strategaeth, polisi a chanllawiau<br>• Anghenion y boblogaeth<br>• Y sector gofal a gwasanaethau gofal<br>• Adnoddau |

**ATODIAD 1c.**

**Templed ar gyfer Cynllun Comisiynu**

| **Cyflwyniad**<br><br>***Canlyniad***: Mae rhanddeiliaid yn glir ynghylch cwmpas y cynllun, sut y cafodd ei ddatblygu a'r cysylltiadau rhyngddo a dogfennau cynllunio allweddol eraill | | |
|---|---|---|
| **Tasg** | **Gwybodaeth, nodiadau, cwestiynau ychwanegol** | **Ffynonellau gwybodaeth posibl** |
| 1. Disgrifiwch ddiben y cynllun h.y. ai datganiad byr o fwriad strategol ynteu dadansoddiad a chynllun manwl ydyw? Beth yw'r materion allweddol y bydd yn mynd i'r afael â hwy? | | • Templed ar gyfer Pennu Cwmpas |
| 2. Nodwch y gwerthoedd a'r weledigaeth a rennir. | | • Templed dadansoddi |
| 3. Rhowch ddarlun byr o'r maes gwasanaeth sydd dan ystyriaeth, y blaenoriaethau a'r canlyniadau y mae'r cynllun yn ceisio'u cyflawni. | | • Templed ar gyfer Pennu Cwmpas |
| 4. Disgrifiwch yn fyr sut y cafodd y cynllun ei ddatblygu a pha randdeiliaid oedd yn rhan o'r gwaith. | | • Templed ar gyfer Pennu Cwmpas<br>• Cynllun cyfathrebu |
| 5. Disgrifiwch yn fyr beth yw'r cysylltiadau rhwng y cynllun a dogfennau cynllunio allweddol eraill e.e. y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a.y.b. | | • Templed dadansoddi |

| Canllawiau, Strategaethau ac Ymchwil cenedlaethol a lleol<br><br>***Canlyniad:*** Mae rhanddeiliaid yn glir ynghylch y polisïau, canllawiau, cynlluniau strategol, ymchwil ac arfer gorau allweddol sy'n tanategu'r cynllun comisiynu. | | |
|---|---|---|
| **Tasg** | **Gwybodaeth, nodiadau, cwestiynau ychwanegol** | **Ffynonellau gwybodaeth posibl** |
| 6. Rhowch drosolwg o'r boblogaeth dan sylw. | | • Templed dadansoddi<br>• Dadansoddiad o anghenion demograffig |
| 7. Darparwch amlinelliad byr o'r prif negeseuon o waith ymchwil, canllawiau cenedlaethol ac arfer da sydd wedi goleuo'r cynllun. | | • Templed dadansoddi |
| **Dadansoddi Anghenion y Boblogaeth**<br><br>***Canlyniad:*** Mae rhanddeiliaid yn glir ynghylch yr anghenion gofal a ganfuwyd mewn asesiad a'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer y dinasyddion dan sylw | | |
| **Tasg** | **Gwybodaeth, nodiadau, cwestiynau ychwanegol** | **Ffynonellau gwybodaeth posibl** |
| 8. Nodwch gwmpas a natur yr anghenion y bwriedir i'r cynllun eu diwallu e.e. darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion pobl hŷn â dementia. | | • Templed ar gyfer pennu cwmpas |
| 9. Rhowch grynodeb o'r canfyddiadau allweddol o'r dadansoddiad o anghenion ar gyfer y boblogaeth dan sylw, gan ddangos tueddiadau demograffig a maint yr angen a pha mor gyffredin ydyw. | | • Templed dadansoddi<br>• Dadansoddiad o anghenion y boblogaeth |

| **Cyflwyniad**<br><br>***Canlyniad***: Mae rhanddeiliaid yn glir ynghylch cwmpas y cynllun, sut y cafodd ei ddatblygu a'r cysylltiadau rhyngddo a dogfennau cynllunio allweddol eraill | | |
|---|---|---|
| **Tasg** | **Gwybodaeth, nodiadau, cwestiynau ychwanegol** | **Ffynonellau gwybodaeth posibl** |
| 10. Rhowch grynodeb o'r canfyddiadau allweddol o waith ymchwil lleol neu ymgynghoriadau gyda rhanddeiliaid allweddol e.e. poblogaethau cyfan, Cleifion, tenantiaid, defnyddwyr gwasanaethau/gofalwyr. | | • Templed dadansoddi |
| 11. Darparwch asesiad cyffredinol o anghenion y grŵp o bobl dan sylw a goblygiadau'r data yma. | | • Templed dadansoddi<br>• Dadansoddiad o anghenion y boblogaeth |
| 12. Disgrifiwch y canlyniadau y mae'r cynllun wedi'i fwriadu i'w cyflawni ar gyfer y boblogaeth dan sylw, a sut y mae'r rhain yn wahanol i'r canlyniadau y mae'r boblogaeth yn eu profi yn awr. | | • Templed dadansoddi |

| **Adolygu Gwasanaethau**<br><br>***Canlyniad:*** Mae rhanddeiliaid yn glir ynghylch y darlun cyffredinol o ystod ac ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael i ddiwallu anghenion y boblogaeth, yn awr ac yn y dyfodol. | | |
|---|---|---|
| **Tasg** | **Gwybodaeth, nodiadau, cwestiynau ychwanegol** | **Ffynonellau gwybodaeth posibl** |
| 13. Rhowch ddarlun byr o wasanaethau presennol a'r defnydd ohonynt yn ogystal â darlun ehangach o'r sector gofal. Dylai hwn gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod lleol yn ogystal â gwasanaethau sy'n | | • Templed dadansoddi |

| **Cyflwyniad**<br><br>***Canlyniad***: Mae rhanddeiliaid yn glir ynghylch cwmpas y cynllun, sut y cafodd ei ddatblygu a'r cysylltiadau rhyngddo a dogfennau cynllunio allweddol eraill | | |
|---|---|---|
| **Tasg** | **Gwybodaeth, nodiadau, cwestiynau ychwanegol** | **Ffynonellau gwybodaeth posibl** |
| cael eu contractio. | | |
| 14. Darparwch asesiad o fylchau ar hyn o bryd yn y gwasanaethau sydd ar gael a'u perfformiad. | | • Templed dadansoddi<br>• Dadansoddiad o'r bylchau |
| 15. Darparwch fap o'r gwasanaethau sy'n dangos ble y mae gwasanaethau wedi'u lleoli a'r math o sefydliad sy'n eu darparu e.e. statudol, trydydd sector, preifat, arbenigol a.y.b. | | • Templed dadansoddi |
| 16. Rhowch grynodeb o faint y gwasanaethau ac eglurwch a oes tangyflenwad neu orgyflenwad o wasanaethau. Dylech gynnwys materion penodol e.e. diffyg darpariaeth mewn lleoliad daearyddol arbennig neu orgyflenwad o fath arbennig o wasanaeth. | | • Templed dadansoddi<br>• Dadansoddiad o'r bylchau |
| 17. Rhowch grynodeb o berfformiad gwasanaethau a disgrifiwch pa un a yw gwasanaethau'n diwallu anghenion yn llawn ynteu'n rhannol. | | • Templed dadansoddi |
| 18. Rhowch grynodeb o'r trefniadau cytundebol a'r trefniadau grant sy'n bodoli ac unrhyw gryfderau neu wendidau yn y trefniadau. | | • Templed dadansoddi |

| **Cyflwyniad**<br><br>***Canlyniad***: Mae rhanddeiliaid yn glir ynghylch cwmpas y cynllun, sut y cafodd ei ddatblygu a'r cysylltiadau rhyngddo a dogfennau cynllunio allweddol eraill | | |
|---|---|---|
| **Tasg** | **Gwybodaeth, nodiadau, cwestiynau ychwanegol** | **Ffynonellau gwybodaeth posibl** |
| 19. Rhowch ddarlun o'r adnoddau ariannol sydd ar gael yn awr ac a allai fod ar gael dros gyfnod y cynllun. | | • Dadansoddiad o'r adnoddau |
| 20. Disgrifiwch y tueddiadau yn awr ac yn y dyfodol o ran darparu gwasanaethau ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. | | • Templed dadansoddi |
| 21. Rhowch grynodeb o'r gorgyflenwad, diffyg neu bwysau y gwyddys amdanynt yn y ddarpariaeth, yn awr neu yn y dyfodol, a meysydd lle ceir perfformiad gwael. | | • Dadansoddiad o'r bylchau |
| **Dadansoddiad o'r bylchau a dyluniad y ddarpariaeth yn y dyfodol**<br><br>***Canlyniad:*** Mae rhanddeiliaid yn glir ynghylch bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir a threfn y gwasanaethau sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion | | |
| **Tasg** | **Gwybodaeth, nodiadau, cwestiynau ychwanegol** | **Ffynonellau gwybodaeth posibl** |
| 22. Darparwch ddadansoddiad o'r bylchau, gan nodi ble:<br><br>• Mae bylchau o ran mathau arbennig o wasanaethau;<br>• Mae angen i wasanaethau gael eu diwygio neu eu diweddaru i gyd-fynd ag arfer gorau neu ofynion deddfwriaethol; | | • Dadansoddiad o'r bylchau<br>• Templed dadansoddi |

| **Cyflwyniad**<br><br>***Canlyniad***: Mae rhanddeiliaid yn glir ynghylch cwmpas y cynllun, sut y cafodd ei ddatblygu a'r cysylltiadau rhyngddo a dogfennau cynllunio allweddol eraill | | |
|---|---|---|
| **Tasg** | **Gwybodaeth, nodiadau, cwestiynau ychwanegol** | **Ffynonellau gwybodaeth posibl** |
| • Mae gwasanaethau'n amhriodol neu mewn lleoliadau anhygyrch;<br>• Ceir gorddarpariaeth o ran rhai gwasanaethau penodol o'i gymharu ag anghenion y boblogaeth;<br>• Mae angen gwelliannau o ran cost-effeithiolrwydd, effeithlonrwydd neu berfformiad gwasanaethau. | | |
| 23. Darparwch asesiad o gydlyniad llwybrau rhwng asiantaethau e.e. iechyd a gofal cymdeithasol a rhwng mathau o wasanaethau e.e. gwasanaethau llety a gwasanaethau dydd. | | • Map rhanddeiliaid |
| 24. Nodwch drefn gwasanaethau yn y dyfodol a'r blaenoriaethau/ canlyniadau strategol a fydd yn angenrheidiol i'w cyflawni o fewn amserlen y cynllun. | | • Templed dadansoddi<br>• Arfarniad opsiynau |
| 25. Nodwch arfarniad opsiynau sydd ar gael i sicrhau gwasanaethau, gan gynnwys risgiau. | | • Templed arfarnu'r opsiynau<br>• Arfarniad opsiynau Canllaw Cynllunio Caffael ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Chymorth sy'n Gysylltiedig â Thai |
| 26. Disgrifiwch yr amcanion comisiynu allweddol a'r rhesymeg sy'n sail iddynt. | | • Fframwaith canlyniadau |

| **Cyflwyniad**<br><br>***Canlyniad***: Mae rhanddeiliaid yn glir ynghylch cwmpas y cynllun, sut y cafodd ei ddatblygu a'r cysylltiadau rhyngddo a dogfennau cynllunio allweddol eraill | | |
|---|---|---|
| **Tasg** | **Gwybodaeth, nodiadau, cwestiynau ychwanegol** | **Ffynonellau gwybodaeth posibl** |
| 27. Nodwch y goblygiadau o ran adnoddau sy'n gysylltiedig â'r amcanion comisiynu allweddol. | | • Dadansoddiad o adnoddau |

| **Cynlluniau Datblygu Gwasanaethau, Caffael a Rheoli'r Farchnad**<br><br>***Canlyniad:*** Bydd rhanddeiliaid yn glir ynghylch y modd y bydd newidiadau i wasanaethau'n cael eu gweithredu a sut y bydd y broses o newid yn cael ei rheoli | | |
|---|---|---|
| **Tasg** | **Gwybodaeth, nodiadau, cwestiynau ychwanegol** | **Ffynonellau gwybodaeth posibl** |
| 28. Disgrifiwch sut y bydd y newidiadau arfaethedig i wasanaethau'n cael eu gweithredu'n ymarferol e.e. trwy gynlluniau caffael a datblygu gwasanaethau mewnol. | | • Templed arfarnu'r opsiynau |
| 29. Disgrifiwch sut y bydd cysylltiadau'n cael eu creu trwy gynlluniau busnes blynyddol awdurdodau lleol. | | • Templed dadansoddi |
| 30. Nodwch gynllun ar gyfer sut y bydd y sylfaen ddarparwyr yn cael ei rheoli, gan gynnwys unrhyw newidiadau i drefniadau contractio, partneriaeth neu ddyrannu grantiau | | • Templed asesu effeithiau |

| **Trefniadau Monitro**<br><br>***Canlyniad:*** Bydd rhanddeiliaid yn glir ynghylch sut y bydd y cynllun comisiynu a gwasanaethau'n cael eu monitro i benderfynu a yw'r cynllun yn trefnu gwasanaethau yn y ffordd a fwriadwyd |
|---|

| Tasg | Gwybodaeth, nodiadau, cwestiynau ychwanegol | Ffynonellau gwybodaeth posibl |
|---|---|---|
| 31. Disgrifiwch sut y bydd y cynllun comisiynu'n cael ei fonitro i benderfynu a yw'n trefnu gwasanaethau yn y ffordd a fwriadwyd. | | • Templed adolygu gwasanaethau |
| 32. Disgrifiwch sut y bydd gwasanaethau a chontractau'n cael eu monitro i sicrhau eu bod yn cyflawni'r amcanion a nodir yn y cynllun comisiynu | | • Cynllun rheoli'r farchnad |

**Atodiadau**

***Canlyniad:*** Bydd gan randdeiliaid fynediad at yr wybodaeth sydd wedi goleuo'r amcanion allweddol yn y cynllun comisiynu

| Tasg | Gwybodaeth, nodiadau, cwestiynau ychwanegol |
|---|---|
| 33. Y dadansoddiad llawn o anghenion y boblogaeth a'r sector/ gwasanaethau gofal | |
| 34. Canlyniadau ymarferion ymgynghori | |
| 35. Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer gofal cymdeithasol ac iechyd, a dangosyddion pwysig eraill sy'n briodol i'r grŵp o bobl dan sylw | |
| 36. Geirfa sy'n egluro'r termau a ddefnyddir yn y cynllun | |
| 37. Dogfennau ymchwil a chyfarwyddyd allweddol | |

| **Cyflwyniad**<br><br>***Canlyniad***: Mae rhanddeiliaid yn glir ynghylch cwmpas y cynllun, sut y cafodd ei ddatblygu a'r cysylltiadau rhyngddo a dogfennau cynllunio allweddol eraill | | |
|---|---|---|
| **Tasg** | **Gwybodaeth, nodiadau, cwestiynau ychwanegol** | **Ffynonellau gwybodaeth posibl** |
| 38. Cynllun gweithredu sy'n nodi sut y bydd y cynllun comisiynu'n cael ei weithredu a chan bwy a.y.b. | | |

**ATODIAD 2**

**Yr Agenda Genedlaethol**

| |
|---|
| Mae'r atodiad hwn yn ymwneud ag adran 2.1.1 yn y ddogfen a bydd yn ddefnyddiol pan fyddwch yn adnabod y polisïau a'r egwyddorion allweddol sy'n tanategu'r strategaeth gomisiynu. Mae'r atodiad yn cynnwys crynodebau o'r canlynol a dolenni iddynt:<br><br>a) Polisïau a Chanllawiau Cenedlaethol.<br>b) Deddfwriaeth Berthnasol<br>c) Ymchwil.<br>d) Arfer Gorau. |

**a) Polisïau a Chanllawiau Cenedlaethol**

Mae llawer o'r ffynonellau canlynol yn ddogfennau a gyhoeddwyd yng Nghymru, mae rhai wedi'u cyhoeddi yn Lloegr ond yn berthnasol i'r DU gyfan; ac eraill ddim yn ymwneud â Chymru yn uniongyrchol ond yn cynnwys deunyddiau cyfeirio a allai fod yn ddefnyddiol.

***Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed (2008 – 2018)***

Cafodd strategaeth ddeng mlynedd Llywodraeth Cymru *Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed* ei lansio ym mis Hydref 2008 ac mae ar gael yn www.wales.gov.uk .

Mae'n nodi rhaglen genedlaethol eglur ar gyfer ymdrin â'r niweidiau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau a'u lleihau ac mae'n seiliedig ar bedwar maes gweithredu:

- Atal niwed.
- Cynorthwyo camddefnyddwyr sylweddau.
- Cynorthwyo teuluoedd.
- Mynd i'r afael â'r ddarpariaeth ac amddiffyn unigolion a chymunedau.

Mae'r strategaeth yn nodi dull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â'r ystod lawn o sylweddau a gamddefnyddir yng Nghymru ac mae'n cynnwys:

- Cyffuriau anghyfreithlon megis heroin, cocên, ecstasi, amffetaminau, LSD a chanabis.
- Alcohol.
- Sylweddau Seicoweithredol Newydd
- Meddyginiaethau ar bresgripsiwn yn unig, megis steroidau anabolig a bensodiasepinau.
- Meddyginiaethau dros y cownter megis paratoadau sy'n cynnwys codin.
- Sylweddau anweddol megis chwistrellau aerosol, bwten, toddyddion

- a glud.

Caiff y strategaeth ei hategu hefyd gan gynllun cyflawni manwl ‘Y Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2013-2015’

***Canllawiau ar gyfer Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau (2012)***

Mae’r canllawiau hyn wedi’u bwriadu ar gyfer yr asiantaethau hynny sy’n cynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ledled Cymru ac maent wedi’u bwriadu i helpu asiantaethau partner i gyflawni rolau’r BCA.

Sefydlwyd BCAau yn 2010 fel rhan o’r trefniadau newydd i gyflawni Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru ‘Gweithio Gyda’n Gilydd i Leihau Niwed’. Roedd y BCAau wedi’u bwriadu i ddarparu fframwaith rhanbarthol, er mwyn:

- cryfhau'r gwaith partneriaeth a'r arweinyddiaeth strategol wrth weithredu'r strategaeth camddefnyddio sylweddau;
- gwella swyddogaethau allweddol y gwaith o gynllunio, comisiynu a rheoli perfformiad.

Mae’r Canllawiau ar gyfer BCAau ar gael ar y tab cyhoeddiadau yn http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/substancemisuse/?skip=1&lang=cy.

***Fframweithiau Triniaethau Camddefnyddio Sylweddau (SMTF)***

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyfres o ddogfennau sy’n nodi’r fframweithiau y dylid ei ddefnyddio i ddarparu elfennau amrywiol o Wasanaethau Camddefnyddio Sylweddau. Nod y dogfennau yw:

- Pennu patrwm cenedlaethol ar gyfer comisiynu triniaethau camddefnyddio sylweddau a fydd yn diwallu anghenion poblogaethau lleol amrywiol.
- Cynnal tegwch, cydraddoldeb a chysondeb yn y gwaith o gomisiynu a darparu triniaethau a gofal camddefnyddio sylweddau yng Nghymru.
- Cynorthwyo i ddynodi'r cysylltiadau rhwng gwasanaethau, fel bod modd datblygu systemau gofal integredig.
- Nodi manylion y lefel ddisgwyliedig o ddarpariaeth, a fydd yn darparu templed y gellir ei ddefnyddio er mwyn monitro, archwilio a gwerthuso.

Mae nifer o fframweithiau sy’n ystyried grwpiau agored i niwed yn benodol, gan gynnwys problemau iechyd meddwl a phroblemau oherwydd camddefnyddio sylweddau sy’n cyd-ddigwydd, cyn-filwyr a gwella mynediad at wasanaethau i bobl hŷn a dylai gwasanaethau a gomisiynir roi ystyriaeth ddyledus i’r canllawiau hyn.

Mae Fframweithiau Triniaethau Camddefnyddio Sylweddau sydd wedi cael eu cyhoeddi hyd yma ar gael ar y tab polisi a chanllawiau yn http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/substancemisuse/?skip=1&lang=cy.

***Safonau Craidd Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yng Nghymru (2010)***

Mae cyfres o safonau craidd wedi cael ei datblygu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru. Nod y rhain yw:

- Atgyfnerthu elfennau llywodraethu ac atebolrwydd y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

- Sicrhau bod pob gweithgaredd allweddol sy'n ymwneud â chynllunio, adolygu a darparu gwasanaethau yn canolbwyntio ar y dinesydd.

- Sicrhau bod yr ystod lawn o wasanaethau yn cael ei darparu mewn ffordd effeithiol, ddiogel a chyson ledled Cymru.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar y tab cyhoeddiadau yn http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/substancemisuse/?skip=1&lang=cyhttp://www.wales.gov.uk/substancemisuse.

***Gofal Integredig a Llwybrau Gofal Integredig ar gyfer Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau i Oedolion yng Nghymru (2010)***

Mae strategaeth camddefnyddio sylweddau Cymru "Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed" yn nodi gweledigaeth ar gyfer integreiddio gwasanaethau sy'n hwyluso'r broses er mwyn i ddefnyddwyr gwasanaethau symud yn ddi-dor rhwng gwasanaethau, a chael mynediad at nifer o wasanaethau sy'n ategu ei gilydd heb yr angen am sawl asesiad.

Er mwyn ei gwneud yn bosibl gwireddu'r weledigaeth hon mae Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau ar ddatblygu Llwybrau Gofal Integredig. Bydd y rhain yn helpu i sicrhau:

- Cysondeb a chydraddoldeb ledled Cymru.

- Nad yw'r mynediad at ofal yn cael ei seilio ar drefniadau hanesyddol.

- Bod y swyddogaethau'n eglur, a bod arbenigedd ar gael.

- Bod y dull o gyfathrebu'n cael ei wella, bod llai o waith yn cael ei ddyblygu ac y ceir gwared â disgwyliadau sy'n gwrthdaro â'i gilydd.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar y tab cyhoeddiadau yn http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/substancemisuse/?skip=1&lang=cy.

***Gofal Integredig i Blant a Phobl Ifanc hyd at 18 oed sy'n Camddefnyddio Sylweddau (2010)***

Nod y ddogfen hon yw rhoi arweiniad gweithredol i bartneriaid ar ddatblygiad manwl gwasanaethau gofal a thriniaeth integredig i blant a phobl ifanc sy'n 18 oed neu'n iau ac yn dioddef problemau camddefnyddio sylweddau.

Mae'n tynnu ynghyd y dystiolaeth ddiweddaraf am effeithiolrwydd ar draws y pedair haen o wasanaeth ac arweiniad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi ar faterion diogelu, cydsyniad a chyfrinachedd.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar y tab cyhoeddiadau yn http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/substancemisuse/?skip=1&lang=cy.

***Datblygu'r Gweithlu***

Mae'r gweithlu camddefnyddio sylweddau'n eang iawn gan ei fod yn cynnwys y rhai sy'n gweithio gydag oedolion, plant a phobl ifanc a'r rhai mewn gwasanaethau arbenigol yn ogystal â gwasanaethau mwy prif ffrwd fel addysg a gofal cymdeithasol. Mae sicrhau bod y gweithlu hwn yn meddu ar sgiliau ac adnoddau digonol yn hanfodol i ddarparu ymyriadau camddefnyddio sylweddau priodol, diogel ac effeithiol.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Datblygu'r Gweithlu Camddefnyddio Sylweddau (2011-2014) wedi cael ei roi ar waith ar draws Byrddau Cynllunio Ardal i lefelau amrywiol a bydd y weledigaeth a'r egwyddorion allweddol yn y ddogfen hon yn dal i fod yn un o'r gofynion craidd ar gyfer unrhyw wasanaethau a gomisiynir yn y dyfodol gan y Bwrdd Cynllunio Ardal. Hefyd, mae angen i Fyrddau Cynllunio Ardal fod yn ymwybodol o'u priod risgiau camddefnyddio sylweddau lleol a rhanbarthol ac wedi hynny sicrhau bod hyfforddiant a chymorth addas ar gael, lle y bo'n bosibl. Bydd cynllun gweithredu pellach ar gyfer y gweithlu'n cael ei ddatblygu fel rhan o'r Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2016-18. Unwaith y bydd wedi'i gyhoeddi bydd disgwyl i bob BCA gyflawni'r camau gweithredu a nodir.

Er mwyn cynorthwyo i sicrhau bod y gweithlu'n parhau i fod â sgiliau priodol mae Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffuriau ac Alcohol (DANOS) yn bodoli. Mae'r rhain, a ddiwygiwyd yn 2014, yn datgan o safbwynt cyflogwyr, gweithwyr, cyrff rheoleiddio a'r Llywodraeth, pa ansawdd mewn gwasanaethau a chanlyniadau a ddisgwylir. Safonau DANOS yw'r fanyleb y cytunwyd arni ar gyfer y safon perfformiad sy'n ofynnol gan weithwyr camddefnyddio sylweddau ble bynnag y maent yn gweithio yn y sector. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn: http://www.trainingexchange.org.uk/danos.asp a http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/substancemisuse/?skip=1&lang=cy.

Mae ffynonellau canllawiau eraill yn cynnwys y canlynol:

- Mae gan Gyngor Gofal Cymru adran ddefnyddiol ar Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol hefyd sydd i'w chael yn: http://www.cgcymru.org.uk/safonau-galwedigaethol-cenedlaethol/?force=2&bc=2740:3429
- Mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a berchnogir ar y cyd gan yr holl bartneriaid cynghreiriol o fewn Sgiliau Gofal a Datblygu a Sgiliau Iechyd yn cynnwys safonau penodol mewn perthynas â chomisiynu, caffael a chontractio. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

http://www.skillsforcare.org.uk/Standards/NOS/National-occupational-standards.aspx.

- Cyrff Aelodaeth Broffesiynol, gan gynnwys y Coleg Nyrsio Brenhinol, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol a Choleg Brenhinol y Seiciatryddion.

***Y Rhaglen Lywodraethu (2011)***

Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer tymor y Cynulliad presennol. Mae'r ddogfen yn pwysleisio'r canlyniadau yr ydym yn gweithio tuag atynt ac yn cynnwys cyfres o ddangosyddion sy'n dangos sut y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni dros bobl Cymru.

I gael mwy o wybodaeth gweler http://gov.wales/about/programmeforgov/?lang=cy.

***Law yn Llaw at Iechyd (2011)***

Mae Law yn Llaw at Iechyd yn nodi Strategaeth Iechyd Llywodraeth Cymru sy'n disgrifio'r weledigaeth ar gyfer y GIG dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'r ddogfen hon yn gwneud gwasanaethau sylfaenol a chymunedol yn ganolog i ddarparu gwasanaethau, lle mae atal, ansawdd a thryloywder wrth galon yr agenda gofal iechyd.

I gael mwy o wybodaeth gweler:
http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/together/?lang=cy

***Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru (2012)***

Mae Strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru wedi'i bwriadu i wella bywydau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl, eu gofalwyr a'u teuluoedd.

Wrth wraidd y Strategaeth hon mae Mesur Iechyd Meddwl (Cymru), sy'n rhoi dyletswyddau cyfreithiol ar Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol i wella'r gefnogaeth i bobl â salwch meddwl.

Prif themâu Law yn Llaw at Iechyd yw:

- Hybu lles meddyliol, a lle bo'n bosibl, rhwystro datblygiad problemau iechyd meddwl.

- Sefydlu partneriaeth newydd â'r cyhoedd, gan ganolbwyntio ar:
    - Wella'r wybodaeth am iechyd meddwl
    - Sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'r gofalwyr yn cymryd mwy o ran yn y penderfyniadau sy'n ymwneud â'u gofal
    - Newid agweddau tuag at iechyd meddwl drwy fynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu.
- Darparu rhwydwaith gofal sydd wedi'i ddylunio'n dda ac sy'n hollol integredig. Bydd hyn yn seiliedig ar wella iechyd defnyddwyr gwasanaeth a'u galluogi i fyw bywyd mor llawn ac annibynnol â phosibl.

- Rhoi sylw i'r amrywiaeth o ffactorau ym mywydau pobl a all effeithio ar iechyd meddwl a lles drwy Gynllunio Gofal a Thriniaeth a chydweithio ar draws y sectorau.

Mae'r ddogfen ar gael yn:
[http://wales.gov.uk/topics/health/nhswales/healthservice/mental-health-services/strategy/?lang=cy](http://wales.gov.uk/topics/health/nhswales/healthservice/mental-health-services/strategy/?lang=cy)

***Cynlluniau Tymor Canolig Integredig – Byrddau Iechyd.***

Roedd Deddf Cyllid Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 a'r Fframwaith Cynllunio GIG Cymru cysylltiedig yn nodi dull newydd o weithredu cynlluniau tymor canolig, a bydd yn ofynnol i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau bennu sut y caiff adnoddau eu defnyddio dros gyfnod o dair blynedd er mwyn:

- Ymdrin ag anghenion iechyd y boblogaeth a gwella canlyniadau iechyd;
- Gwella ansawdd y gofal;
- Sicrhau gwerth gorau o'r adnoddau.

***Datganiad Polisi Caffael Cymru (2012)***

Mae'r Datganiad yn nodi deg egwyddor o ran sut y dylai'r sector cyhoeddus gyflawni gweithgarwch caffael, o fod ag adnoddau proffesiynol i ddefnyddio caffael i gyflawni 'manteision cymunedol' a chefnogi economi Cymru. Mae'r rhain fel a ganlyn:

1. **Strategol** - Dylai gwaith caffael gael ei gydnabod a'i reoli fel swyddogaeth gorfforaethol strategol sy'n trefnu a deall gwariant; gan ddylanwadu ar y gwaith cynnar o gynllunio a threfnu gwasanaethau a chyfrannu at y broses benderfynu er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion cyffredinol.

***2.*** **Adnoddau proffesiynol** – dylai gwariant caffael fod yn ddarostyngedig i lefel briodol o gyfraniad a dylanwad proffesiynol, gan fabwysiadu'r meincnod cychwynnol o un gweithiwr caffael proffesiynol o leiaf i bob £10 miliwn o wariant ar draws y sector cyhoeddus ehangach.

***3.*** **Effaith Economaidd, Gymdeithasol ac Amgylcheddol** - Dylid ystyried Gwerth am Arian fel y cyfuniad gorau posibl o gostau oes gyfan o ran sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chanlyniadau o safon uchel ar gyfer y sefydliad, a hefyd dylai fod o fudd i gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd, yn awr ac yn y dyfodol.

**4.** **Manteision Cymunedol** – mae sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol trwy gymhwyso polisi Manteision Cymunedol yn effeithiol yn ystyriaeth sy'n gorfod bod yn rhan annatod o waith caffael.

**5.** **Cystadleuaeth agored, hygyrch** – dylai cyrff cyhoeddus fabwysiadu dulliau caffael cymesur sy'n seiliedig ar risg i sicrhau bod cyfleoedd contract ar gael i bawb ac nad yw cyflenwyr lleol a llai o faint yn cael eu hatal rhag ennill

contractau yn unigol, fel rhan o gonsortia neu drwy swyddogaethau yn y gadwyn gyflenwi.

6. **Prosesau Safonol Syml** – dylai prosesau caffael fod yn agored a thryloyw ac yn seiliedig ar ddulliau safonol a dylent ddefnyddio systemau cyffredin sy'n lleihau cymhlethdod, cost, amserlenni a gofynion ar gyfer cyflenwyr mewn ffordd briodol.

7. **Cydweithredu** – dylid mynd i'r afael â meysydd o wariant cyffredin ar y cyd gan ddefnyddio dulliau a manylebau safonol a reolir gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i leihau dyblygu, i gael yr ymateb gorau gan y farchnad, i sefydlu egwyddorion y Datganiad Polisi hwn er budd Cymru; ac i rannu adnoddau ac arbenigedd.

8. **Ymgysylltu â Chyflenwyr ac Arloesi** – dylid gwella deialog â chyflenwyr i helpu i gael yr ymateb gorau o'r farchnad, i hysbysu ac addysgu cyflenwyr ac i sicrhau'r gwerth gorau am arian.

9. **Datblygu a Gweithredu Polisi** – defnyddio polisi sydd o gymorth i gyrraedd y saith nod llesiant ar gyfer Cymru a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

10. **Mesur ac Effaith** – yn unol ag arferion rheoli da, dylid monitro perfformiad a chanlyniadau gwaith caffael i gefnogi gwelliannau parhaus a dylai enghreifftiau o arferion da a gwael gael eu rhannu'n agored.

Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch y modd y bwriedir cyflawni'r uchod yn:

http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/bettervfm/publications/procurement-policy-statement/?lang=cy

***'Mwy na geiriau …'***

Hwn yw'r fframwaith strategol a ddatblygwyd i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cael mynediad at wasanaethau ym maes Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Gymraeg. Lle mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf, gwyddom y dylai'r gallu i ddefnyddio a derbyn gwasanaethau yn yr iaith fod yn elfen graidd o ofal ac nid yn ddewis ychwanegol. Mae cyfathrebu effeithiol yn un o ofynion allweddol gwasanaethau gofal ac mae'r Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydnabod yr angen hwn ar draws pob agwedd ar ofal iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Mae'r egwyddor o ran cynnig gweithredol yn 'Mwy na geiriau' yn golygu nad oes cyfrifoldeb ar ddefnyddiwr gwasanaethau i ofyn am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, ond yn hytrach bod yn rhaid i'r gwasanaeth sicrhau ei fod yn eu darparu. Dylid dilyn yr egwyddor hon wrth ddarparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau hefyd ac fel rhan o'ch asesiad o anghenion dylech ystyried niferoedd y siaradwyr Cymraeg i sicrhau bod gwasanaethau ar gael. Mae mwy o wybodaeth am ddefnyddio'r Gymraeg ar gael yn: http://www.welshlanguagecommissioner.org/english/Pages/Home.aspx

***Gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy i Gymru: fframwaith gweithredu (2015)***

Mae'r ddogfen hon yn ystyried sut y mae angen ad-drefnu ac ailbennu ffocws gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yng ngoleuni'r heriau newydd a wynebir – yn arbennig, newid yn ein disgwyliadau o wasanaethau cymdeithasol, newid demograffig, y ffaith bod teuluoedd a chymunedau'n fwy gwasgaredig ac effaith materion megis camddefnyddio sylweddau.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn:
http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/guidance1/services/?lang=cy

***Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol. Fframwaith Comisiynu - Canllawiau ac Arferion Da (2010)***

Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau statudol ar gomisiynu gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Fframwaith a'r Canllawiau'n berthnasol i waith comisiynu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae'n berthnasol hefyd i waith comisiynu gan bartneriaethau ehangach lle defnyddir gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r canllawiau yn annog gweithio mewn partneriaeth ac felly mae'r egwyddorion yn dal yn berthnasol yng nghyd-destun camddefnyddio sylweddau. Mae'r ddogfen hon ar gael yn:
http://prp.gov.wales/planners/social/strategicframework/wgpolicystrategyguidance/flscguidance/

***"Yr Hawl i fod yn Ddiogel" (2010)***

Hon yw strategaeth integredig chwe blynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig. Ceir mwy o wybodaeth yn:
http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/domesticabuse/publications/besafe/?lang=cy

***Strategaeth ar gyfer Gofalwyr yng Nghymru (2013)***

Mae'r ddogfen hon yn cynnig fframwaith y gall pob asiantaeth ei ddefnyddio er mwyn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth i ofalwyr. Mae'r strategaeth yn nodi'r camau gweithredu allweddol y byddwn yn eu cymryd er mwyn cefnogi gofalwyr yn ystod gweddill tymor y Cynulliad hwn, hyd at 2016.
Mae pum prif faes sy'n flaenoriaeth, sef:

- Iechyd a gofal cymdeithasol.
- Deall pwy yw'r gofalwyr, gwybodaeth ac ymgynghori;
- Gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc;
- Cymorth a bywyd sydd y tu hwnt i ofalu;
- Gofalwyr a chyflogaeth.

Ceir mwy o wybodaeth yn:
http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/strategies/carers-strategy/?lang=cy

***Strategaeth Lleihau Aildroseddu Cymru (2014-16)***

Mae'r strategaeth hon yn ceisio dwyn ynghyd bartneriaid o bob sector mewn ymdrech ar y cyd i leihau troseddau ac aildroseddu er mwyn gwneud Cymru'n ddiogelach. Er mwyn llywio proses effeithiol ar gyfer gweithredu'r strategaeth, mae cynllun cyflawni wedi cael ei ddatblygu. Gall copi o'r strategaeth i'w weld isod:

https://www.gov.uk/government/publications?departments%5B%5D=national-offender-management-service&publication_type=corporate-reports

## 2b Deddfwriaeth Berthnasol

***Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)***

Daeth y Ddeddf hon yn gyfraith yng Nghymru ar 1 Mai 2014 a rhoddodd effaith i flaenoriaethau'r Gweinidog yn y Papur Gwyn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu*. Mae dau amcan yn ganolog iddi. Yn gyntaf, gwella canlyniadau llesiant i bobl ac arnynt angen gofal a chymorth, ynghyd â gofalwyr ac arnynt angen cymorth; ac yn ail, diwygio cyfraith gwasanaethau cymdeithasol i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i integreiddio'r gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cefnogi pobl o bob oed fel rhan o deuluoedd a chymunedau.

Ceir mwy o wybodaeth yn:
http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/?lang=cy

***Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)***

Cyflwynwyd y Bil ar 7 Gorffennaf 2014 i gryfhau trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella llesiant Cymru er mwyn sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Mae'r Bil yn:

- Nodi amcanion i wella llesiant Cymru.
- Cyflwyno dangosyddion cenedlaethol a fydd yn mesur y gwahaniaeth sy'n cael ei wneud i lesiant Cymru.
- Penodi Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru i fod yn eiriolwr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Gwneud Byrddau Gwasanaethau Lleol a chynlluniau llesiant yn statudol a symleiddio gofynion ar gyfer cynllunio cymunedol integredig.

Ceir mwy o wybodaeth yn:
http://gov.wales/legislation/programme/assemblybills/future-generations/?lang=cy

***Bil Llywodraeth Leol (Cymru)***

Cyflwynwyd y Bil ar 26 Ionawr 2015 a hwn yw'r cyntaf o 2 fil arfaethedig i ddiwygio llywodraeth leol yng Nghymru. Bydd y Bil yn hwyluso rhaglen o uno awdurdodau lleol.

Mae'r Bil yn caniatáu gwaith paratoadol ar gyfer rhaglen o uno a diwygio llywodraeth leol, ac mae'n cynnwys darpariaethau i hwyluso uno gwirfoddol gan 2 brif awdurdod lleol neu fwy erbyn mis Ebrill 2018.

Mae'r Bil yn gosod mesurau diogelu i atal prif awdurdodau lleol presennol rhag gwneud unrhyw beth a allai achosi niwed i enw da neu sefyllfa ariannol unrhyw brif awdurdod lleol newydd sy'n cael ei greu drwy uno.

Ceir mwy o wybodaeth yn:
http://gov.wales/legislation/programme/assemblybills/local-government/?lang=en

***'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)' 2011***

Gosododd y Mesur ddyletswydd ar holl Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a rhwymedigaethau sylweddol yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i brotocolau dewisol. Mae Adran 2 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion gyhoeddi Cynllun Hawliau Plant sy'n nodi'r trefniadau a fydd gan Weinidogion i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Roedd y Cynllun Hawliau Plant cyntaf a gyhoeddwyd ym mis Mai 2012 yn nodi'r trefniadau ar gyfer cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus wrth ystyried deddfwriaeth newydd arfaethedig, polisïau newydd arfaethedig ac adolygiad neu newid i bolisi a/neu ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli. Mae'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi cael ei hymestyn ymhellach yn awr ac o fis Mai 2014, bydd angen i'r holl Weinidogion roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth gyflawni unrhyw un o'u swyddogaethau fel Gweinidogion.

Ceir mwy o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig ynghylch Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn:
http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents a cheir gwybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn: http://www.uncrcletsgetitright.co.uk/

***Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011***

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg a fydd yn dilyn yn nodi'r rhwymedigaeth statudol o ran defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Creodd y Mesur Gomisiynydd y Gymraeg hefyd sydd â phwerau gorfodi cryf i amddiffyn hawliau siaradwyr Cymraeg i gael mynediad at wasanaethau yn y Gymraeg. Ceir mwy o wybodaeth yn http://gov.wales/newsroom/welshlanguage/?lang=cy

***Bil Trais ar sail Rhywedd, Trais Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru).***

Cyflwynwyd y Bil Trais ar sail Rhywedd, Trais Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) ar 30 Mehefin 2014.

Nod y Bil yw gwella ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru i drais ar sail rhywedd, trais domestig a thrais rhywiol. Mae'n cynnig canolbwynt strategol ac yn sicrhau bod ystyriaeth gyson yn cael ei rhoi i fecanweithiau atal, amddiffyn a chefnogi wrth gyflenwi gwasanaethau.

Mae'r Bil yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion, Cynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol ("Awdurdodau Lleol") a Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru i baratoi a chyhoeddi strategaethau i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, trais domestig a thrais rhywiol. Bydd y darpariaethau yn y Bil yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i Weinidogion Cymru benodi Cynghorydd Gweinidogol ac yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar gyfer awdurdodau perthnasol o ran sut, wrth gyflawni eu swyddogaethau, y gallent gyfrannu at ateb diben y Bil.

Ceir mwy o wybodaeth yn: http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/safety/domestic-abuse/?lang=cy

***Deddf Tai (Cymru) 2015.***

Nod deddf tai gyntaf Cymru yw gwella'r cyflenwad o dai, ansawdd tai a safonau tai yng Nghymru. Mae elfennau allweddol y ddeddf yn cynnwys:

- cyflwyno cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol ar gyfer landlordiaid yn y sector rhentu preifat ac asiantau gosod a rheoli
- diwygio deddfwriaeth digartrefedd, gan gynnwys gosod dyletswydd gryfach ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd a chaniatáu iddynt ddefnyddio llety addas yn y sector preifat
- gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle canfuwyd angen
- cyflwyno safonau ar gyfer awdurdodau lleol ar renti, taliadau gwasanaeth ac ansawdd llety

## 2c Arfer Da

***Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau (APoSM)***

Corff cynghorol arbenigol annibynnol a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw'r Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau. Fe'i sefydlwyd dan bwerau gweithredol cyffredinol Gweinidogion Cymru ac fe'i hariennir gan Lywodraeth Cymru. Cylch gwaith y panel yw cynghori ynghylch mesurau i atal a lleihau problemau camddefnyddio sylweddau, a'r niweidiol iechyd a chymdeithasol cysylltiedig.

I gael mwy o wybodaeth am y Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau (APoSM) cysylltwch â aposm@wales.gsi.gov.uk

***Cyngor Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau. (ACMD)***

Mae'r Cyngor Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau yn cyflwyno argymhellion i'r Llywodraeth am reoli cyffuriau sy'n beryglus neu'n niweidiol mewn ffordd arall, gan gynnwys dosbarthu a rhestru dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 a'i rheoliadau. Corff cyhoeddus anadrannol cynghorol o fewn y Swyddfa Gartref yw'r Cyngor Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau.

### *Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)*

NICE yw'r sefydliad annibynnol sy'n gyfrifol am ddarparu canllawiau cenedlaethol ynghylch hybu iechyd ac atal a thrin afiechyd. Ceir tudalennau penodol hefyd mewn perthynas ag alcohol a chyffuriau, a gellir cael rhagor o wybodaeth yn: www.nice.org.uk/guidance/health-protection/drug-misuse a www.nice.org.uk/guidance/lifestyle-and-wellbeing/alcohol

### *Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW)*

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu gwybodaeth a chanllawiau cadarn, seiliedig-ar-dystiolaeth ynghylch yr ystod o niweidiau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, a allai hefyd gynnwys cynnydd mewn gweithgarwch rhywiol a gweithgarwch arall sy'n dwyn risg (e.e. troseddau a charcharu) a risg cysylltiedig o haint gyda feirysau a gludir yn y gwaed a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol. Gellir mynd at eu gwefan yn: www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/72997

### *Public Health England (PHE)*

Yn 2013 daeth yr Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Triniaethau (NTA) yn rhan o Public Health England (PHE), un o asiantaethau gweithredol yr Adran Iechyd.

Mae PHE yn hyrwyddo system gytbwys ac uchelgeisiol i leihau'r niwed i iechyd a lles a achosir gan alcohol a chyffuriau. Maent yn cefnogi partneriaid lleol trwy ddarparu gwybodaeth a chudd-wybodaeth o safon uchel am gyffuriau ac alcohol, arbenigedd, cymorth at ofynion unigol, a thrwy feincnodi perfformiad a datblygu a rhannu tystiolaeth o arfer effeithiol. Cyfeiriad y wefan yw www.nta.nhs.uk

### *Scottish Drugs Forum*

Sefydliad polisi a gwybodaeth ym maes cyffuriau sy'n seiliedig ar aelodaeth ac adnodd cenedlaethol ar gyfer arbenigedd ar faterion sy'n ymwneud â chyffuriau. Cyfeiriad y wefan yw http://www.sdf.org.uk/

### *Alcohol Concern ac Alcohol Concern Cymru*

Alcohol Concern / Alcohol Concern Cymru yw'r asiantaeth wirfoddol genedlaethol a'i phriod gangen yng Nghymru ar gamddefnyddio alcohol, sy'n cyflawni swyddogaeth allweddol o ran hybu a chynghori ynghylch datblygu polisi cenedlaethol ar alcohol ac sy'n brif ffynhonnell wybodaeth ym maes alcohol ar gyfer y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a'r Llywodraeth. Cyfeiriad y wefan yw: http://www.alcoholconcern.org.uk/

### *ReSolv*

Mae ReSolv yn asiantaeth wirfoddol genedlaethol sy'n arbenigo mewn mynd i'r afael â Chamddefnyddio Sylweddau Anweddol. Cyfeiriad y wefan yw: www.re-solv.org

***Supporting public service transformation: cost benefit analysis guidance for local partnerships***

Mae’r ddogfen hon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, Public Sector Transformation Network a New Economy yn darparu canllawiau ynghylch dadansoddi cost a budd i bartneriaethau lleol. Mae’r ddogfen hon ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/supporting-public-service-transformation-cost-benefit-analysis-guidance-for-local-partnerships

***Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru***

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn darparu amrywiaeth o fathau o gymorth ar gyfer sefydliadau yn y trydydd sector ac mae hefyd yn cynrychioli ac yn ymgyrchu ar ran sefydliadau gwirfoddol, gwirfoddolwyr a chymunedau. Cyfeiriad gwefan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yw: http://www.wcva.org.uk/home

***Rhoi gofal iechyd darbodus ar waith***

Mae’r adnodd ‘Rhoi gofal iechyd darbodus ar waith’ wedi’i fwriadu i egluro rhai o’r cysyniadau allweddol sy’n sail i ofal iechyd darbodus. Mae’n cyfleu safbwyntiau’r rhai sy’n gweithio mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru neu sy’n defnyddio’r gwasanaethau hynny am yr hyn y mae gofal iechyd darbodus yn ei olygu iddynt hwy a’i botensial i Gymru.

Gellir cael gafael ar yr adnodd yn http://www.prudenthealthcare.org.uk/cy/ Yn arbennig, mae erthygl ar gamddefnyddio sylweddau: http://www.prudenthealthcare.org.uk/mynd-ir-afael-a-chamddefnyddio-sylweddau-mewn-ffordd-effeithiol-a-chynaliadwy/

***Canllaw Cynllunio Caffael ar gyfer Gofal Cymdeithasol***

Adnodd am ddim ar y we yw hwn sy’n darparu gwybodaeth gynhwysfawr am gomisiynu a chaffael gwasanaethau gofal. Mae ar gael yn: http://prp.wales.gov.uk/

***GwerthwchiGymru.***

Ffynhonnell gwybodaeth a phorth caffael a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yw gwefan newydd GwerthwchiGymru (www.gwerthwchigymru.gov.uk).

Nod y wefan yw helpu prynwyr yn y sector cyhoeddus i hysbysebu a rheoli cyfleoedd tendro, trwy gynnig:

- System syml lle gellir dogfennu cyfleoedd tendro.
- Cofrestriad am ddim sy’n caniatáu i ddefnyddwyr wneud defnydd llawn o offer i helpu i chwilio am gyfleoedd tendro.
- Mynediad at wasanaethau caffael mewn un lle.
- Y cyfleuster i hysbysebu tendrau a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau i’r sector cyhoeddus.

- Gwybodaeth rad-ac-am-ddim am gontractau a chaffael.
- Astudiaethau achos o ddefnyddwyr GwerthwchiGymru.
- Y cyfle i chwilio am y newyddion a'r digwyddiadau caffael diweddaraf.

***Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID)***

Nod SQuID yw symleiddio a safoni'r broses ddethol mewn ymarferion caffael gan wella tryloywder a datblygu system ar gyfer storio data craidd cyffredin ynghylch cyflenwyr (ar GwerthwchiGymru) i'w ddefnyddio yn y cam dethol/cyn-gymhwyso. Mae manteision allweddol defnyddio SQuID yn cynnwys:

- Lleihau'r achosion o ddyblygu ymdrech i gyflenwyr (a phrynwyr).
- Hybu dull sy'n seiliedig ar risg ac sy'n gymesur ar gyfer gosod cwestiynau, trwy ddarparu offeryn proffilio risg ar gyfer prynwyr.
- Gwell tryloywder a chysondeb ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r fersiwn ddiweddaraf o SQuID ar gael yn: http://prp.wales.gov.uk/

**ATODIAD 3**

**Rhestr Termau**

Y Rhestr Termau o'r Canllawiau ar gyfer Byrddau Cynllunio Ardal a gyhoeddwyd yn 2012 yw craidd yr atodiad hwn, gyda rhai geiriau ac esboniadau allweddol ychwanegol sy'n ymwneud â chomisiynu a chamddefnyddio sylweddau.

| | |
|---|---|
| ACMD | Cyngor Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau. |
| Allbynnau | Nifer yr unedau o ofal a ddarperir gan y darparwr, e.e. nifer y defnyddwyr gwasanaethau sy'n cael cymorth neu nifer y cynlluniau gofal a gwblhawyd. |
| APoSM | Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau |
| Awdurdodau Cyfrifol | Cyrff sy'n aelodau o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yw'r term a ddefnyddir yn gyffredin. Cyfeirir at yr awdurdodau hyn dan adran 5 o Ddeddf Troseddau ac Anhrefn 1998. |
| BCAau | Byrddau Cynllunio Ardal |
| Byrddau Gwasanaethau Lleol | Partneriaethau trawsasiantaethol sy'n cynnwys arweinwyr allweddol o'r sector statudol, y sector preifat a'r trydydd sector gyda'r nod o wella trefniadau cydweithio a hwyluso trefn ar sail system gyfan o ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion mewn ardal benodol. |
| Byrddau Iechyd Lleol | Cyrff annibynnol o fewn y GIG a reolir yn lleol, sy'n gyfrifol am ddarparu gofal iechyd a chyflawni gwelliannau o ran iechyd i drigolion lleol. Maent yn comisiynu ystod o wasanaethau iechyd cymunedol neu'n eu darparu'n uniongyrchol fel rhan o'u swyddogaethau. Mae'r cyrff hyn yn wynebu newidiadau strwythurol a newidiadau eraill yng Nghymru, a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar eu rôl mewn prosesau comisiynu a materion cysylltiedig. |
| Caffael | Y broses o adnabod a sicrhau darparwr, gan gynnwys ysgogi/rheoli'r |

| | |
|---|---|
| | farchnad a thendro cystadleuol ac, yna, monitro a gwerthuso effeithiolrwydd gwasanaethau. |
| Canlyniadau | Effaith neu ddylanwad gwasanaethau ar y gymuned neu ymyriad gan wasanaeth ar unigolyn, e.e. gostyngiad mewn troseddau mewn cymuned leol neu gwblhau addysg ffurfiol. |
| Comisiynu | Y broses o ddiwallu anghenion ar lefel strategol ar gyfer grwpiau cyfan o ddefnyddwyr gwasanaethau a/neu boblogaethau cyfan, ac o ddatblygu cyfeiriadau polisi, modelau gwasanaeth a'r farchnad, i ddiwallu'r anghenion hynny yn y ffordd fwyaf priodol a chost-effeithiol. |
| Contract | Cydgytundeb y gellir ei orfodi'n gyfreithiol. |
| Contract Cynghrair | Mae contract cynghrair yn un contract rhwng y comisiynydd a chynghrair o asiantaethau sy'n darparu gwasanaeth / sy'n cyflawni prosiect. Mae'r trefniant hwn yn ei gwneud yn bosibl rhannu risg ar draws yr holl bartïon a sefydlu cydberchnogaeth ar gyfleoedd a chyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect cyfan neu ddarparu'r gwasanaeth cyfan. |
| Contractio | Y broses o drafod a chytuno ar delerau contract ar gyfer gwasanaethau, a rheolaeth barhaus ar y contract gan gynnwys talu a monitro. |
| Corff Statudol | Corff a sefydlwyd gan ddeddfwriaeth y mae ei ddyletswyddau wedi'u sefydlu'n gyfreithiol. |
| Cronfeydd Cyfun | Mecanwaith i bartneriaid comisiynu ddod ag arian ynghyd, mewn cronfa ar wahân, i dalu am wasanaethau y cytunwyd arnynt. |
| Cydgomisiynu | Y broses lle mae un neu ddau o |

| | |
|---|---|
| | sefydliadau'n gweithredu gyda'i gilydd i gydgysylltu'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau, gan rannu'r cyfrifoldeb am roi'r strategaeth ar waith. |
| Cyfarwyddebau Caffael yr UE | Cyfarwyddebau Caffael yr Undeb Ewropeaidd (UE) sydd, ynghyd â deddfwriaeth y DU, yn pennu'r gyfraith ar gyfer caffael yn y sector cyhoeddus. Ynghyd ag egwyddorion cytundeb yr UE gan gynnwys bod yn agored, tryloywder a thriniaeth gyfartal a chyfraith achosion Ewropeaidd a domestig berthnasol, eu diben yw agor y farchnad ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a brynir gan gyrff yn y sector cyhoeddus. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd ag egwyddor yr UE sy'n ymwneud â symudiad rhydd nwyddau a gwasanaethau o fewn yr UE. |
| Cytundeb/ Contract Fframwaith | Contract neu gytundeb sy'n rhestru ystod o ddarparwyr sydd wedi dangos eu bod yn gallu darparu nwyddau neu wasanaethau penodedig. Unwaith y bydd wedi'i sefydlu, gall sefydliadau neu unigolion (derbynyddion taliadau uniongyrchol neu ddeiliaid cyllidebau unigol) alw ar un neu fwy o'r darparwyr i gael nwyddau neu wasanaethau yn ôl y gofyn. Rhaid i'r trefniant "yn ôl y gofyn" ar gyfer prynu gwasanaethau o'r fframwaith weithredu'n unol â'r meini prawf a nodwyd pan sefydlwyd y fframwaith. |
| Cytundebau Lefel Gwasanaeth (SLA) | Ymrwymiadau ysgrifenedig y cytunwyd arnynt rhwng awdurdodau sy'n prynu a'u hadrannau darparu mewnol. |
| Darparwr | Term generig i ddisgrifio sefydliad sy'n darparu gwasanaeth gofal. |
| Darparwyr | Unrhyw berson, grŵp o bobl neu sefydliad sy'n cyflenwi nwyddau neu wasanaethau. Gall darparwyr fod yn y sector statudol neu anstatudol. |
| Datgomisiynu | Y broses o gynllunio a rheoli lleihad |

| | |
|---|---|
| | mewn gweithgarwch gan wasanaeth neu derfynu contract yn unol ag amcanion comisiynu. |
| DPA | Dangosydd Perfformiad Allweddol |
| GIG | Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| Gofalwr | Person sy'n darparu gofal nad yw'n cael ei gyflogi i wneud hynny gan asiantaeth neu sefydliad. Mae gofalwr yn aml yn berthynas neu ffrind sy'n gofalu am rywun gartref sy'n eiddil neu'n sâl, a gall y gofalwr fod yn berson o unrhyw oed. |
| Grantiau | Taliadau i gyrff allanol i ariannu neu dalu'n ôl am wariant ar eitemau neu swyddogaethau y cytunwyd arnynt yn unol ag amodau cyfreithiol rwymol. |
| Ffurflen Dendro | Y ddogfen a ddarperir gan yr asiantaeth brynu ac a ddefnyddir gan y darparwr gwasanaethau neu'r cyflenwr i lunio'i gynnig ffurfiol. |
| Heblaw'r Sector Statudol | Darpariaeth gan y sectorau gwirfoddol, annibynnol a phreifat |
| Mentrau Cymdeithasol | Busnesau ag amcanion cymdeithasol neu amgylcheddol yn bennaf. Mae eu gwargedion yn cael eu hailfuddsoddi yn y busnes neu yn y gymuned. Mae mentrau cymdeithasol yn cynnwys cwmnïau cydweithredol, ymddiriedolaethau datblygu, mentrau cymunedol, cymdeithasau tai a chwmnïau cymdeithasol. |
| NICE | Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal |
| Partneru | Perthynas rhwng prynwyr a darparwyr nwyddau a gwasanaethau ar hyd y gadwyn gyflenwi sydd wedi'i bwriadu i gynyddu i'r eithaf effeithiolrwydd adnoddau pob cyfranogwr. |
| PCC | Comisiynwyr Heddlu a Throseddu |
| PDCau | Partneriaethau Diogelwch Cymunedol |

| | |
|---|---|
| Pecyn Gofal | Enw torfol ar gyfer y gwasanaethau y gall person ddisgwyl eu cael yn dilyn asesiad. |
| PPaPhI | Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc |
| Prynu | Y broses o brynu neu ariannu gwasanaethau. |
| Prynwr | Deiliad cyllideb sy'n contractio i brynu gwasanaeth gan ddarparwr. |
| PHE | Public Health England. |
| PHW | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| RBA | Atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau |
| Rhanbarthol | Yn cyd-daro â ffiniau Byrddau Iechyd. |
| Rheoli'r Gofal | Y broses o ddiwallu anghenion ar lefel unigol, a elwir weithiau'n ficrogomisiynu. |
| Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffuriau ac Alcohol (DANOS) | Mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn disgrifio perfformiad seiliedig ar gymwyseddau yn y gweithle. Maent yn datgan o safbwynt cyflogwyr, gweithwyr, cyrff rheoleiddio a buddiannau'r Llywodraeth, yr ansawdd gwasanaeth a'r canlyniadau a ddisgwylir. Safonau DANOS yw'r fanyleb y cytunwyd arni ar gyfer y safon perfformiad sy'n ofynnol gan weithwyr camddefnyddio sylweddau ble bynnag y maent yn gweithio yn y sector. |
| SMAF | Cronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau |
| SMART | Tîm Cynghori Rhanbarthol ar Gamddefnyddio Sylweddau sy'n cynnwys staff Llywodraeth Cymru. Mae dau dîm, y naill yn gwasanaethu ardaloedd Byrddau Iechyd Dyfed, Powys, Abertawe Bro Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro a'r llall yn gwasanaethu ardaloedd Byrddau |

| | |
|---|---|
| | Iechyd Gwent, Cwm Taf a Gogledd Cymru. |
| SMLO | Swyddogion Arweiniol Camddefnyddio Sylweddau |
| SMTF | Fframwaith Triniaethau Camddefnyddio Sylweddau |
| Tendr | Cynnig ffurfiol i ddarparu gwasanaethau mewn ymateb i fanyleb, fel arfer am bris datganedig neu yn unol ag atodlen o brisiau datganedig. |
| Tendrwr | Person neu gorff sydd wedi cyflwyno, neu wedi cael ei wahodd i gyflwyno tendr. |
| TOP | Proffil Canlyniadau Triniaeth |
| WNDSM | Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau |
| Y Sector Annibynnol | Term ymbarél sy’n disgrifio’r holl sefydliadau anstatudol sy’n darparu gofal cyhoeddus, gan gynnwys ystod eang o gwmnïau preifat, a sefydliadau gwirfoddol a chymunedol. |
| Y Sector Gwirfoddol a Chymunedol | ‘Term Ymbarél’, sy’n cyfeirio at elusennau cofrestredig yn ogystal â sefydliadau dielw anelusennol, cymdeithasau, grwpiau hunangymorth a grwpiau cymunedol, sy’n gweithredu ar sail ddielw, i roi cymorth a chefnogaeth i’r grŵp o bobl y maent yn bodoli i’w wasanaethu. Gallant fod yn lleol neu’n genedlaethol a gallant gyflogi staff neu ddibynnu’n gyfan gwbl ar wirfoddolwyr. |
| Y Trydydd Sector | Mae hyn yn cynnwys yr ystod lawn o sefydliadau nad ydynt yn perthyn i’r sector cyhoeddus na’r sector preifat, sy’n anllywodraethol ac yn ‘seiliedig ar werthoedd’; hynny yw, cânt eu cymell gan yr awydd i hybu amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol yn hytrach na gwneud elw. |

**ATODIAD 4**

**Dadansoddi Anghenion**

Mae'r atodiad hwn ymwneud ag adran 2.3 yn y ddogfen ac yn cynnwys rhai ffynonellau a allai eich cynorthwyo i ddadansoddi anghenion y boblogaeth, gan gynnwys:

- Dadansoddiad demograffig.
- Dadansoddiad o iechyd y cyhoedd.

**Dadansoddiad Demograffig**

*Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn darparu gwybodaeth a data ystadegol ynghylch economi, poblogaeth a chymdeithas Prydain ar lefel genedlaethol a lefel leol. Caiff crynodebau a data manwl eu cyhoeddi ar y wefan yn: www.statistics.gov.uk

*Cyfarwyddiaeth Ystadegol Cymru*

Mae Cyfarwyddiaeth Ystadegol Cymru yn casglu, prosesu, dehongli a chyhoeddi gwybodaeth am gyflwr economaidd a chymdeithasol Cymru; ac yn hybu'r defnydd o'r wybodaeth honno wrth wneud penderfyniadau yn y Llywodraeth a thu hwnt. Mae'n cwmpasu ystod eang o bynciau gan gynnwys demograffeg, iechyd, tai, addysg, hyfforddiant, amaethyddiaeth, diwydiant, yr economi, llywodraeth leol, trafnidiaeth, yr amgylchedd a'r Gymraeg. http://gov.wales/statistics-and-research/?skip=1&lang=cy

*Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014)*

Hwn yw'r mesur swyddogol o amddifadedd cymharol ar lefel ardaloedd bach yng Nghymru. I gael mwy o wybodaeth am Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a'r data a gesglir gweler:
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/?lang=cy

*LSB Insight*

Offeryn i gynorthwyo partneriaid mewn Byrddau Gwasanaethau Lleol yw LSB Insight. Mae'r offeryn hwn yn dal setiau data craidd a chudd-wybodaeth gysylltiedig mewn un ffynhonnell sy'n cael ei diweddaru'n gyson. Y bwriad yw bod yr offeryn yn arbed amser ac ymdrech i chi'n lleol ac yn ysgogi cysondeb. Bydd angen i chi gofrestru i ddefnyddio'r offeryn hwn, y gellir mynd ato yn: http://lsb.infobasecymru.net/IAS/home

**Dadansoddiad o Iechyd y Cyhoedd**

*Iechyd Cyhoeddus Cymru*

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dwyn ynghyd adnoddau iechyd y cyhoedd y pum awdurdod iechyd blaenorol yng Nghymru, gan gynnwys mewnbwn gan adrannau

academaidd – ac adnoddau'r Gwasanaeth Labordai Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru.
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/home

*Data ynghylch Triniaethau*

Mae'r Adroddiad Ystadegol ar Gamddefnyddio Sylweddau yn cynnwys gwybodaeth o Gronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau am weithgarwch o ran triniaethau. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn: http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/substancemisuse/?skip=1&lang=cy ar y tab 'Mesur yr Effaith'.

*Proffil Blynyddol o Gamddefnyddio Sylweddau.*

Mae'r adroddiad ystadegol hwn yn rhoi crynodeb o'r dystiolaeth ar gamddefnyddio sylweddau yr adroddir arni'n rheolaidd sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru. Daw'r dystiolaeth o nifer o ffynonellau data gan gynnwys gwybodaeth o Gronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW), Cronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru, gwybodaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, data ynghylch Addysg a data'r Swyddfa Gartref. Mae mathau o ddata'n cynnwys marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol a chyffuriau, derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag alcohol a chyffuriau, feirysau a gludir yn y gwaed a data ynghylch troseddau. Mae'r adroddiad hwn ar gael yn: http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/substancemisuse/?skip=1&lang=cy ar y tab 'Mesur yr Effaith'.

*Daffodil.*

System ar y we yw 'Daffodil' sy'n dwyn ynghyd yr wybodaeth y mae arnoch ei hangen i gynllunio pa wasanaethau gofal y gall fod eu hangen yn eich ardal leol yn y dyfodol. Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth o waith ymchwil ac amcanestyniadau poblogaeth sy'n dangos yr angen posibl am ofal dros yr 20 mlynedd nesaf ar gyfer plant, oedolion a phobl hŷn. Mae'r system hon ar gael yn: http://www.daffodilcymru.org.uk/

**ATODIAD 5**

**<u>Ysgrifennu Eich Strategaeth Gomisiynu</u>**

Mae'r atodiad hwn yn ymwneud ag adran 3.4 yn y ddogfen ac yn rhoi amlinelliad o'r elfennau y gallech eu cynnwys yn eich strategaeth gomisiynu.

**Cyflwyniad**

- Diben y cynllun a gwerthoedd a gweledigaeth a rennir.
- Darlun byr o'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau, y blaenoriaethau a'r canlyniadau y mae'r strategaeth yn ceisio'u cyflawni.
- Disgrifiad byr sy'n nodi sut y cafodd y strategaeth ei datblygu a'r cysylltiadau rhyngddi a dogfennau cynllunio allweddol eraill.

**Canllawiau Cenedlaethol ac Ymchwil**

- Amlinelliad byr o'r prif negeseuon o waith ymchwil, canllawiau cenedlaethol ac arfer da sydd wedi goleuo'r cynllun.
- Hefyd dylid amlygu sbardunau allweddol ar gyfer newid a chyfeirio at unrhyw bethau y mae'n 'rhaid eu gwneud' o ddeddfwriaeth, canllawiau a.y.b.

**Asesiad o Anghenion**

- Maint a natur yr anghenion y bwriedir mynd i'r afael â hwy yn y cynllun.
- Dadansoddiad demograffig – yn dangos maint yr angen a pha mor gyffredin ydyw.
- Canfyddiadau o waith ymchwil neu ymgyngoriadau gyda phoblogaethau cyfan, defnyddwyr gwasanaethau, pobl eraill sydd o bwys (aelodau o'r teulu neu ofalwyr) a darparwyr gwasanaethau ar lefel leol.
- Asesiad cyffredinol o anghenion y grŵp dan sylw (h.y. iechyd, tai, gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol) a goblygiadau'r data hwn.

*DS. Nid yw'n angenrheidiol i'r dadansoddiad llawn o anghenion gael ei gynnwys ym mhrif gorff y strategaeth gan fod hwn wedi'i gynnwys mewn atodiadau ar wahân; fodd bynnag dylid cynnwys digon o fanylion i helpu darllenwyr i ddeall y strategaeth, eich amcanion a'r rhesymeg sy'n sail iddynt.*

**Adolygiad o Wasanaethau (Dadansoddiad o'r Farchnad)**

- Darlun o wasanaethau camddefnyddio sylweddau presennol a'r defnydd ohonynt yn ogystal â darlun ehangach o'r farchnad ac asesiad o'r bylchau presennol o ran argaeledd neu berfformiad gwasanaethau.
- Map o wasanaethau sy'n dangos ble mae gwasanaethau wedi'u lleoli a'r math o sefydliadau sy'n eu darparu.
- Maint gwasanaethau – a oes gorgyflenwad neu dangyflenwad o wasanaethau.

- Perfformiad gwasanaethau – pa un a yw gwasanaethau'n diwallu anghenion yn llawn ynteu'n rhannol.
- Y trefniadau cytundebol a'r trefniadau grantiau sy'n bodoli ac unrhyw gryfderau / gwendidau yn y trefniadau.
- Asesiad o faterion comisiynu tebygol ar draws y farchnad gyfan yn y dyfodol megis argaeledd y gweithlu, pris ac argaeledd eiddo ac asesiad cyffredinol o gadernid y farchnad.
- Darlun o'r adnoddau ariannol sydd ar gael yn awr ac a allai fod ar gael dros gyfnod y cynllun. Gallai hyn gynnwys yr holl adnoddau sydd ar gael, megis cyllid grant a chyllid craidd, a sut y maent yn debygol o gynyddu neu leihau dros gyfnod y strategaeth. Ni ddylai hyn fod yn gyfyngedig i gyllidebau penodol ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn unig ond gall gynnwys arian arall megis arian y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu os oes anghenion ar y cyd wedi cael eu hadnabod fel rhai y bwriedir comisiynu gwasanaethau ar eu cyfer.
- Tueddiadau o ran y gwasanaethau a ddarperir yn awr ac yn y dyfodol ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.
- Crynodeb o orgyflenwad neu dangyflenwad o ddarpariaeth camddefnyddio sylweddau y gwyddys amdano yn awr neu yn y dyfodol, a meysydd lle ceir perfformiad gwael.

**Dadansoddiad o'r Bylchau a Dyluniad Darpariaeth yn y Dyfodol**

- Trefn gwasanaethau yn y dyfodol a'r blaenoriaethau/ canlyniadau strategol a fydd yn angenrheidiol i'w cyflawni o fewn amserlen y cynllun.
- Arfarniad o'r opsiynau sydd ar gael, gan gynnwys risgiau.
- Amcanion comisiynu allweddol, y rhesymeg sy'n sail iddynt a'r goblygiadau o ran adnoddau.

**Cynlluniau Datblygu Gwasanaethau, Caffael a Rheoli'r Farchnad.**

- Sut y bydd y newidiadau arfaethedig i wasanaethau'n cael eu gweithredu'n ymarferol trwy gynlluniau caffael a datblygu gwasanaethau mewnol.
- Sut y bydd cysylltiadau'n cael eu creu trwy gynlluniau busnes perthnasol gan yr awdurdod lleol ac asiantaethau iechyd, a fydd yn nodi'r camau gwella y bwriedir eu cymryd ar draws yr holl wasanaethau perthnasol, gan gynnwys y rhai a ddarperir yn uniongyrchol ac a gaiff eu caffael.
- Cynllun ar gyfer sut y bydd y farchnad yn cael ei rheoli, gan gynnwys unrhyw newidiadau i drefniadau contractio, partneriaeth neu ddyrannu grantiau.

**Trefniadau Monitro**

- Sut y bydd y cynllun comisiynu a gwasanaethau/contractau'n cael eu monitro yn y dyfodol i benderfynu a yw'r cynllun yn trefnu gwasanaethau yn y ffordd a fwriadwyd.

**Atodiadau**

- Y dadansoddiad llawn o anghenion a'r farchnad
- Canlyniadau ymarferion ymgynghori
- Yr holl ddangosyddion perfformiad allweddol, a dangosyddion pwysig eraill sy'n briodol i wasanaethau camddefnyddio sylweddau (mae'r adran ar fesur yr effaith yn Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru yr adroddir arni yn yr adroddiadau blynyddol yn gymorth cof ar gyfer dangosyddion o'r fath).
- Geirfa sy'n egluro'r termau a ddefnyddir yn y cynllun.
- Dogfennau ymchwil a chyfarwyddyd allweddol.
- Cynllun gweithredu.
-

**Cyfeiriadau.**


Alakeson, V, Bunnin, A a Miller C (2013) 'Co-production of health and wellbeing outcomes: the new paradigm for effective health and social care' OPM.

Alwyn, T a Thomas E (2012) 'Crynodeb o Ganllawiau Arfer Da ar Ofal Integredig i Blant a Phobl Ifanc hyd at 18 oed sy'n Camddefnyddio Sylweddau'. Llywodraeth Cymru

Yr Adran Iechyd (2007b) 'World Class Commissioning: Competencies' Llundain: Yr Adran Iechyd

Yr Adran Iechyd (2009) Putting People First, Transforming Adult Social Care. Commissioning and Contracting for Outcomes.

Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (2011), 'Co-Production: A way forward for citizen-centred commissioning in Wales'.

Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (2011), 'South West Regional Improvement and Efficiency Partnership. Developing a Market Position Statement for Adult Social Care: A Toolkit for Commissioners'.

Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (2010), A Guide to Fairer Contracting Part 2 Service Specifications, on behalf of 'Care Services Improvement Partnership'.

Ffederasiwn Rhyngwladol y Cyfrifyddion a Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (2014). International Framework:- Good governance in the public sector'.

Knapp, M, et al (2010) 'Building Community Capacity: making an economic case'. PSSRU.

Marks, N. et al, (2008) 'Five ways to well-being: the evidence'. new economics foundation.

Needham, C. a Carr, S (2009); 'Co-production: an emerging evidence base for adult

social care transformation’. Y Sefydliad Rhagoriaeth Gofal Cymdeithasol

Querishi, H a Nocon, A (1996), ‘Outcomes of Community Care for Users and Carers’ OUP.

Gwerthwch i Gymru. http://www.sell2wales.gov.uk/

Y Comisiwn Archwilio (2003) ‘Making Ends Meet’. Y Comisiwn Archwilio.

Llywodraeth Cymru (2008); ‘Gweithio Gyda’n Gilydd i Leihau Niwed 2008 – 2018. Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2010) ‘Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol. Fframwaith Comisiynu - Canllawiau ac Arferion Da’. Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2010) ‘Gofal Integredig i Blant a Phobl Ifanc hyd at 18 oed sy'n Camddefnyddio Sylweddau’. Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2011) ‘Cyfarwyddyd Ymarfer ar ddatblygu strategaeth gomisiynu ar gyfer pobl sydd ag anabledd dysgu’. Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2012) ‘Mwy na geiriau’. Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2013); Gweithio Gyda’n Gilydd i Leihau Niwed: Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2013 – 2015. Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2013) ‘Systemau Gofal Integredig Sy’n Canolbwyntio ar Adferiad’. Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2014); ‘Cynllun y Trydydd Sector’. Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2014); ‘Fframwaith Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth’. Llywodraeth Cymru.